



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Effaith polisi ac ymarfer mewn lleoliadau addysg ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws: Adolygiad o dystiolaeth

Labordy Gwerthuso ac Arfarnu Ymchwil Cyflym
(RREAL), UCL
Ionawr 2025



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac mae'n defnyddio ei waith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol. Mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau ychwanegol hyn o dystiolaeth ac arbenigedd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	5
Cyflwyniad	6
Terminoleg	6
Geirfa	7
Cyd-destun polisi ac ymchwil	10
Cwestiynau'r adolygiad	13
Dulliau	13
Anghenion a deilliannau myfyrwyr traws	17
Anghenion llesiant a deilliannau myfyrwyr traws	18
Deilliannau llesiant	18
Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant	24
Anghenion llesiant	29
Anghenion a deilliannau addysg myfyrwyr traws	32
Deilliannau addysg	32
Ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau addysg	36
Anghenion addysg	39
Effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol	42
Effaith polisïau ac arferion yr ysgol ar fyfyrwyr traws	42
Hinsawdd gyffredinol yr ysgol a chymorth i ysgolion	42
Polisïau ysgol gyda darpariaethau penodol ar gyfer cefnogi myfyrwyr traws	46
Rôl staff 'cefnogol' yr ysgol	49

Dulliau polisi ac ymarfer o ddefnyddio enwau a rhagenwau dewisol myfyrwyr traws	51
Effaith polisi gwisg ysgol	54
Dulliau polisi ac ymarfer ar gyfer defnyddio cyfleusterau ysgolion	55
Dulliau polisi ac ymarfer o gymryd rhan mewn chwaraeon ysgol a gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol eraill ar sail rhyw	57
Effaith ymarfer a pholisi ar gyfoedion myfyrwyr traws	59
Casgliadau	60
Geirdaon	64
Atodiadau	76
A) Methodoleg fanwl	76
B) Strategaethau chwilio	78
C) Nodweddion yr astudiaeth	82

Crynodeb

- Fel rhan o'i Gynllun Gweithredu ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol/traws a cwiar/pobl sy'n cwestiynu (LHDTC+) yn 2023, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau cenedlaethol priodol i ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg.
- Comisiynodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) y Labordy Gwerthuso ac Arfarnu Ymchwil Cyflym (RREAL) i grynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc traws mewn ysgolion.
- Roedd y cwestiynau ymchwil a arweiniodd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar lesiant ac anghenion addysgol a deilliannau plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg, yn ogystal ag effaith dulliau polisi ac ymarfer o drawsnewid cymdeithasol ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws, a'u cyfoedion.
- Cynhaliwyd chwiliad cynhwysfawr i ganfod papurau ac adroddiadau a gyhoeddwyd ar y pwnc hwn. Aseswyd ansawdd yr erthyglau a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid gan ddefnyddio'r Adnodd Gwerthuso Dulliau Cymysg (MMAT).
- Roedd myfyrwyr traws yn nodi deilliannau llesiant gwaeth na'u cyfoedion cisryweddol yn gyson. Roeddent yn fwy tebygol o ddioddef erledigaeth gan gyfoedion, teimlo'n anniogel yn yr ysgol, adrodd am ganlyniadau iechyd meddwl gwaeth, a defnyddio sylweddau. Fodd bynnag, mae'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi'r gwahaniaethau hyn yn dal yn aneglur.
- Nododd myfyrwyr traws yr angen i staff fynd i'r afael â sylwadau trawsffobig, y gallu i roi gwybod am fwlio heb ofni datgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd neu wynebu aflonyddu pellach, a hinsawdd ysgol sy'n derbyn amrywiaeth rhywedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at doiledau ac ystafelloedd newid diogel a chyfforddus.
- Nododd myfyrwyr traws hefyd ddeilliannau addysgol gwaeth o'u cymharu â'u cyfoedion, fel perfformiad academaidd is a phresenoldeb is. Roeddent yn tynnu sylw at yr angen am gwricwlwm ysgol gyfan sy'n cynnwys hunaniaethau traws croestoriadol, gwell dealltwriaeth o amrywiaeth rhywedd ymysg staff a chyfoedion, a llai o wahanu rhywedd yn yr ysgol.
- Prin oedd y dystiolaeth a oedd yn gwerthuso dulliau polisi ac ymarfer penodol o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad astudiaethau, gyda sgoriau ansawdd rhwng 4/5 a 5/5, a oedd yn awgrymu y gallai dulliau cadarnhaol chwarae rhan mewn nifer o ffactorau ehangach sy'n gysylltiedig â deilliannau llesiant ac addysgol gwell i blant a phobl ifanc traws.
- Dim ond yn gryno mewn un erthygl y trafodwyd effaith polisïau ac arferion ar gyfoedion myfyrwyr traws o ran defnyddio toiledau aml-giwbicl niwtral o ran rhywedd. Fodd bynnag, roedd sawl astudiaeth yn edrych ar ddeilliannau ar gyfer myfyrwyr LDHTC+ yn eu cyfanrwydd, heb ddadelfennu'r deilliannau ar gyfer myfyrwyr traws yn benodol.

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu¹ pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar (a phobl sy'n cwestiynu), ynghyd â hunaniaeth rywiol a rhywedd arall ym mis Chwefror 2023, sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisi ar draws Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gefnogi unigolion LHDTTC+ yng Nghymru. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer pobl LHDTTC+, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu canllawiau cenedlaethol priodol i ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg. Tasg Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) oedd cefnogi a llywio datblygiad y canllawiau hyn drwy archwilio'r sylfaen dystiolaeth bresennol, gan gomisiynu'r Labordy Gwerthuso ac Arfarnu Ymchwil Cyflym (RREAL) yng Ngholeg Prifysgol Llundain i lunio'r adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth. Ar ddechrau'r broses adolygu, ymgynghorodd RREAL a WCPP â chydweithwyr Llywodraeth Cymru er mwyn llunio'r cwestiynau ymchwil a'r strategaeth chwilio. Cynhaliwyd yr adolygiad dros bum mis, lle bu ymchwilwyr RREAL yn cydweithio â chydweithwyr WCPP ac adolygwyr cymheiriaid allanol i ddatblygu adolygiad tystiolaeth cadarn o fewn cyfnod byr, gan ddefnyddio dull arfarnu tystiolaeth gyflym a sefydlwyd gan Tricco et al² ac a gymeradwywyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu synthesis o'r dystiolaeth bresennol sydd wedi'i chyhoeddi ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg, yn ogystal ag effaith polisiâu ac arferion o ran trawsnewid cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ar ddeilliannau i gyfoedion i blant a phobl ifanc traws.

Terminoleg

Mae cwmpas yr adolygiad hwn yn cynnwys myfyrwyr traws deuaidd yn ogystal â myfyrwyr anneuaidd, myfyrwyr rhyweddhyllfol, myfyrwyr arywedd, a hunaniaethau a mynegiadau rhywedd amrywiol eraill. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y gair 'traws' fel term cyffredinol i gwmpasu'r ystod hon o hunaniaethau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd deall sut mae unigolion yn cyfeirio atynt eu hunain, ac er ein bod yn cydnabod efallai nad yw rhai unigolion sy'n cael eu cynrychioli yn yr adolygiad hwn yn ystyried eu hunain yn 'draws', mae'r derminoleg hon wedi cael ei dewis i gyd-fynd â'r geiriad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl LHDTTC+. Nid yw'r astudiaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn i gyd yn defnyddio iaith sy'n cyd-fynd â'r geiriad yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl LHDTTC+. Lle bo'n bosibl, mae'r achosion hyn wedi cael eu hail-eirio i gyd-fynd â therminoleg y Cynllun Gweithredu. Wrth adrodd ar dystiolaeth benodol o astudiaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn, bydd yr iaith a ddefnyddir i

ddisgrifio poblogaeth yr astudiaeth yn adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir gan awduron yr erthyglau gwreiddiol.

Adroddir ar y rhan fwyaf o'r canfyddiadau yn unol â system addysg y DU, lle ystyrir bod myfyrwyr rhwng 4 a 10 oed yn oedran ysgol gynradd, ac ystyrir bod myfyrwyr rhwng 11 a 18 oed yn oedran ysgol uwchradd. Wrth adrodd ar ganfyddiadau astudiaethau sy'n benodol i Unol Daleithiau America, mae ysgol elfennol yn cyfeirio at fyfyrwyr rhwng 5 a 10 oed, mae ysgol ganol yn cyfeirio at fyfyrwyr 11-13 oed, ac mae ysgol uwchradd yn cyfeirio at fyfyrwyr rhwng 14 a 18 oed.

Geirfa

Lle bo'n bosibl, mae'r diffiniadau o'r eirfa sy'n cael eu defnyddio yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl LHDTTC+ wedi cael eu defnyddio, gan gynnwys diffiniadau o eirfa allanol y mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl LHDTTC+ yn cyfeirio atynt. Mae'r diffiniadau hyn wedi'u cynnwys i egluro cysyniadau a grybwyllir drwy gydol yr adroddiad, er ein bod yn cydnabod natur ddadleuol rhai o'r termau. Ni fwriedir i'r diffiniadau ddarparu esboniadau cynhwysfawr o gyfeiriadedd a hunaniaethau y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

Rhywedd

'Term sy'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at a yw synnwyr mewnol rhywun ohono'i hun yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneuaidd. Nid yw rhyw pobl bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a roddwyd iddynt adeg eu geni (gweler trawsryweddol/traws). Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio weithiau yng nghyd-destun mynegiant rhywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd.'³

Rhyw

'Mae'n cael ei briodoli i unigolyn ar sail amrywiaeth o nodweddion gan gynnwys cromosomau, proffiliau hormonau ac anatomi a swyddogaethau atgenhedlu (e.e. organau cenhedlu). Nid yw rhyw rhai pobl yn cyd-fynd â'r rhyw a roddwyd iddynt adeg eu geni (gweler trawsryweddol/traws). Ar hyn o bryd yn y DU, dim ond 2 ryw y gellir eu cofnodi adeg geni, sy'n eithrio pobl ryngrywiol. Yn Adran 11 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n dweud "mewn perthynas â nodwedd warchodedig rhyw (a) mae cyfeiriad at berson sydd â nodwedd warchodedig benodol yn gyfeiriad at ddyn neu at fenyw".'³

Hunaniaeth o ran Rhywedd

'Mae'r term hwn yn aml yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol â rhywedd ac, yn y pen draw, mae'n golygu'r un peth, sef ymdeimlad mewnol rhywun ohono'i hun. Mae'r term "hunaniaeth o ran rhywedd" wedi bod yn ffynhonnell o rethreg polareiddio o amgylch y term "adnabod fel..." ac mae wedi cael ei wrthod gan rai pobl a grwpiau sy'n ffafrio'r term mwy syml, "rhywedd".'³

Mynegiant Rhywedd

'Mae hyn yn cyfeirio at sut mae unigolyn yn dewis cyflwyno ei hun mewn cymdeithas i adlewyrchu ei rywedd ar y cyd â normau a gwahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol penodol sydd gan gymdeithasau ynghylch sut mae pobl yn ymddwyn, yn mynegi eu hunain, yn edrych neu'n gwisgo. Mae pobl yn aml yn cael ymdeimlad pwysig o hunaniaeth o ran y rhain, ond gallant hefyd barhau i wynebu gwahaniaethu, anghydraddoldebau a niwed.'³

Amrywiaeth o ran rhywedd

'Mae'r term "amrywiaeth o ran rhywedd" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at bobl y mae eu rhywedd, gan gynnwys eu hunaniaeth o ran rhywedd a'u mynegiant rhywedd, yn groes i'r hyn sy'n cael ei ystyried yn norm rhywedd mewn cyd-destun penodol ar adeg benodol, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gosod eu hunain yn y categori deuaidd gwrywaidd/benywaidd.'³

Lleiafrif o ran rhywedd

Mae lleiafrif o ran rhywedd yn cyfeirio at 'hunaniaeth sy'n wahanol i'r rhyw a neilltuwyd i [berson] ar enedigaeth neu nad yw'n ffitio o fewn y categori gwryw-benyw.'⁴

LHDTC+

Mae'n cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol/traws, cwiar neu sy'n cwestiynu. Gellir ychwanegu llythrennau eraill at yr acronym i gynnwys grwpiau, cyfeiriadedd a hunaniaethau eraill, fel Rh (rhyngrywiol) ac A (arywiol / aramantaidd). Mae'r (plws) yn yr acronym yn cael ei ddefnyddio fel llaw-fer i gynnwys a chydabod termau amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaeth a'u cyfeiriadedd, gan gynnwys rhyngrywiol, arywiol ac aramantaidd.'³

Trawsryweddol/traws

'Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un fath â'r rhyw a roddwyd iddynt adeg eu geni, neu nad yw'n cyd-fynd yn gyfforddus â hynny... Mae rhai pobl anneuaidd yn ystyried eu bod yn dod o dan ymbarél traws, ond nid pob un.'³

Rhywun nad yw'n cydymffurfio o ran ei rywedd (GNC)

'Mae **rhywun nad yw'n cydymffurfio o ran ei rywedd** yn cyfeirio at bobl y mae eu mynegiant rhywedd neu eu cyflwyniad yn anghyson â disgwyliadau diwylliannol normadol eu rhyw adeg eu geni.'⁵

Anneuaidd

Rhywun anneuaidd yw 'rhywun y mae ei rywedd y tu allan i'r syniad deuaidd gwrywaidd/benywaidd traddodiadol o rywedd.'³ 'Gall eu rhywedd fod yn ganolraddol,

neu gallant fod yn niwtral o ran rhywedd, yn gytbwys o ran rhywedd, neu'n ddi-rywedd.'⁶

Trawsryweddol Deuaidd

Person traws y mae ei hunaniaeth rhywedd yn dod o fewn y syniad deuaidd gwrywaidd/benywaidd traddodiadol o rywedd, h.y. dynion traws a menywod traws.⁶

Cisryweddol/cis

Mae Cis, sy'n dalfyriad o cisryweddol, yn cyfeirio at unrhyw un y mae eu rhyw yn cyfateb i'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni.⁶

Croestoriadedd

'Mae'n gysylltiedig â'r ffordd y mae gwahanol fathau o wahaniaethu (h.y. triniaeth annheg oherwydd nodweddion gwarchodedig unigolyn) yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn effeithio arno. Gwahaniaethu croestoriadol, a elwir weithiau'n wahaniaethu cyfun, yw pan fydd rhywun yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun arall oherwydd cyfuniad penodol o ddwy neu ragor o nodweddion gwarchodedig.'³

Trawsnewid cymdeithasol

Mae trawsnewid cymdeithasol 'yn cyfeirio at y camau y mae person traws neu anneuaidd yn eu cymryd i fyw yn ôl ei rywedd'⁶ gan gynnwys 'mabwysiadu'r enw, rhagenwau, mynegiant rhywedd (e.e., dillad a thoriadau gwallt), a/neu rolau rhywedd sy'n cyfateb i'w hunaniaeth o ran rhywedd.'⁷

Dysfforia rhywedd

'Mae dysfforia rhywedd yn dynodi'r trallod parhaus y mae person traws yn ei brofi pan fyddant yn ceisio bodloni disgwyliadau cymdeithas o ran y rhyw y cawsant eu cofnodi adeg eu geni.'⁶

Trawsffobia

'Trawsffobia yw ofn, atgasedd neu gasineb tuag at rywun oherwydd y credir bod ganddynt gefndir traws, neu oherwydd eu bod yn ymwneud â rhywun y credir bod ganddynt gefndir traws.'⁶

Cyd-destun polisi ac ymchwil

Gyda'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc yng Nghymru^{8,9} a'r DU¹⁰ nad ydynt yn uniaethu â'r rhywedd a bennwyd iddynt adeg eu geni, nid yw athrawon ac ysgolion bob amser wedi'u harfogi na'u dysgu'n ddigonol sut i ddarparu amgylchedd addysg cefnogol i bob myfyriwr traws¹¹. Mae corff cynyddol o ymchwil empirig wedi canfod bod myfyrwyr traws mewn mwy o berygl o brofi amgylcheddau ysgol gelyniaethus ac anghefnogol^{12,13}, sy'n gallu cael effaith negyddol sylweddol ar eu llesiant a'u deilliannau addysgol^{14,15}. Mae ymchwil wedi dechrau archwilio'r gwahanol ddulliau polisi ac ymarfer y mae ysgolion yn eu defnyddio o ran myfyrwyr traws¹⁶ fel rhan o ymdrechion i wella profiadau a deilliannau addysg a llesiant myfyrwyr traws¹⁶.

Mae'r cwestiwn ynghylch y ffordd orau o gefnogi plant a phobl ifanc traws yn cael ei herio'n eang, ac mae'r arferion gorau yn parhau'n destun dadl barhaus. Yn y cyd-destun hwn, mae ysgolion yn wynebu her gynyddol anodd wrth benderfynu sut i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi trawsnewid yn gymdeithasol, neu sy'n dymuno gwneud hynny. Mae trawsnewid cymdeithasol wedi cael ei ddiffinio fel proses lle mae unigolion yn 'mabwysiadu'r enw, rhagenwau, mynegiant rhywedd (e.e., torri gwallt a dillad), a/neu rolau rhywedd sy'n cyfateb i'w hunaniaeth o ran rhywedd'⁷.

Mae'r cwestiwn ynghylch y ffordd orau o ymateb i ddymuniadau plant a phobl ifanc i drawsnewid cymdeithasol wedi cael ei herio'n eang, gan fod yn destun sylw sylweddol ym maes ymchwil a pholisi, yn enwedig yng nghyd-destun gofal iechyd sy'n gysylltiedig â rhywedd i blant a phobl ifanc. Mae canllawiau clinigol rhyngwladol yn galw fwyfwy am ddull sy'n cadarnhau rhywedd, gan dynnu sylw at dystiolaeth y gall trawsnewid cymdeithasol chwarae rhan bwysig yn iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc traws¹⁷⁻²⁰. Fodd bynnag, mae beirniaid y dull hwn yn dadlau bod trawsnewid cymdeithasol yn ymyrraeth sylweddol a allai ddylanwadu ar ddatblygiad hunaniaeth o ran rhywedd pan fyddant yn oedolion²¹. Mae pryderon ynghylch y dylanwad posibl hwn ar ddatblygiad hunaniaeth o ran rhywedd wedi arwain at rai clinigwyr yn dadlau dros oedi'r broses drawsnewid cymdeithasol nes bod plant a phobl ifanc wedi cyrraedd oedran penodol neu gyfnodau datblygu penodol, a/neu tan ar ôl cael rhyw fath o therapi siarad^{22,23}. Gan fyfyrio ar y ddadl hon, mae natur a chryfder y sylfaen dystiolaeth ar fanteision iechyd meddwl a llesiant trawsnewid cymdeithasol ar yr un llaw²⁴, a dylanwad posibl trawsnewid cymdeithasol ar ddatblygiad hunaniaeth rhywedd ar y llaw arall²⁵, hefyd yn cael ei herio'n eang.

Ar ben hynny, mae dulliau sy'n argymhell oedi'r broses drawsnewid cymdeithasol ymysg plant a phobl ifanc tan ar ôl cael therapi siarad wedi cael eu beirniadu am ddiffyg sylfaen dystiolaeth ynghylch eu heffeithiolrwydd, eu manteision a'u niwed posibl²⁶, neu hyd yn oed am fod yn fath o therapi trosi²⁷ (honiadau y mae cynigwyr y dulliau hyn wedi'u gwrthod)²⁸.

Fodd bynnag, mae'r cwestiynau dadleuol hyn yn mynd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar effaith dulliau polisi ac ymarfer o ran trawsnewid gymdeithasol mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill ar les a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws, sy'n faes sydd wedi cael llai o sylw. Mae llunwyr polisi a sefydliadau cymdeithas sifil yn datblygu mwy a mwy o ganllawiau ac argymhellion ar y ffordd orau y gall ysgolion a lleoliadau addysg eraill gefnogi plant a phobl ifanc traws, gan fynd i'r afael â dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol i wahanol raddau. Yn gyffredinol iawn, gellir cyferbynnu'r dulliau hyn yn ôl i ba raddau y maent yn cynnwys cadarnhau neu beidio â chadarnhau hunaniaeth rhywedd plant a phobl ifanc traws eu hunain mewn gwahanol gyd-destunau polisi ac ymarfer yn yr ysgol, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod.

Dulliau cadarnhau	Dulliau nad ydynt yn rhai cadarnhau
- Mae staff yr ysgol yn defnyddio'r enw a'r rhagenwau a ddewiswyd gan blant a phobl ifanc - Caiff plant a phobl ifanc wisgo dillad/gwisg sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi iddynt eu hunain - Caiff plant a phobl ifanc ddefnyddio cyfleusterau, fel toiledau ac ystafelloedd newid, sy'n cyfateb i'w rhywedd hunan-ddynodedig (a/neu mae cyfleusterau niwtral o ran rhywedd) - Caiff plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar rywedd, fel chwaraeon ysgol, sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi iddynt eu hunain	- Nid yw staff yr ysgol yn defnyddio'r enw a'r rhagenwau a ddewiswyd gan blant a phobl ifanc - Nid yw plant a phobl ifanc yn cael gwisgo dillad/gwisg sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi iddynt eu hunain - Ni chaiff plant a phobl ifanc ddefnyddio cyfleusterau, fel toiledau ac ystafelloedd newid, sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi iddynt eu hunain (a/neu nid oes cyfleusterau niwtral o ran rhywedd) - Nid yw plant a phobl ifanc yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywedd, fel chwaraeon ysgol, sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi iddynt eu hunain

Tabl 1: Darlun cadarnhaol o'i gymharu â darlun heb fod yn gadarnhaol o ddulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg

Yn gyffredinol, mae mwy a mwy o sylw i ymchwil a pholisi, yn ogystal â dadleuon, o ran y ffordd orau o gefnogi plant a phobl ifanc traws, fel yr adlewyrchir yn yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r Adolygiad Annibynnol o wasanaethau hunaniaeth rhywedd ar gyfer plant a phobl ifanc, a gomisiynwyd gan GIG Lloegr ac a gadeirir gan Dr Hilary Cass (Adolygiad Cass)²⁹. Mae adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd ag Adolygiad Cass³⁰ wedi craffu ar ansawdd y dystiolaeth ar drawsnewid cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc traws, ac wedi galw am ymchwil ychwanegol ar y pwnc hwn.

I fynd i'r afael â rhai o'r bylchau a amlygwyd uchod, nod yr ymchwil hon yw adolygu'n systematig y dystiolaeth ar ddulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg.

Cwestiynau'r adolygiad

Wrth gomisiynu'r adroddiad hwn, nododd Llywodraeth Cymru ddiddordeb penodol mewn pedwar prif gwestiwn:

- 1 Beth yw'r anghenion llesiant a'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg?
- 2 Beth yw'r anghenion a'r deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg?
- 3 Beth yw effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg ar blant a phobl ifanc traws o ran eu llesiant a'u deilliannau addysgol?
- 4 Beth yw effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg ar gyfoedion plant a phobl ifanc traws?

Dulliau

Lluniwyd yr adolygiad hwn yn dilyn y dull ar gyfer adolygiadau cyflym o dystiolaeth², gyda chyfle i ymgorffori llenyddiaeth lwyd berthnasol. Mae adolygiadau cyflym o dystiolaeth yn ddull effeithlon o sicrhau canlyniadau penodol o fewn cyfnod cyfyngedig. Mae'r fethodoleg yn debyg i adolygiad systematig, ond nid yw'n gofyn am broses sgrinio ac echdynnu dwbl gyflawn. Ceir adran fanwl ar ddulliau yn Atodiad A.

I gynnal yr adolygiad hwn, gweithiodd ymchwilwyr RREAL ar y cyd â chydweithwyr WCPP ac adolygwyr cymheiriaid allanol. Mae'r adolygwyr cymheiriaid sy'n cymryd rhan yn arbenigwyr academiaidd a chanddynt arbenigedd pwnc a methodolegol perthnasol. Buont yn adolygu'r protocol a'r termau a ddefnyddiwyd yn y strategaeth chwilio, yn ogystal â'r rhestr o ddogfennau a gynhwyswyd, a drafft cyntaf yr adroddiad. Trafododd y tîm ymchwil yr adborth gan yr adolygwyr cymheiriaid gyda WCPP, a gwnaethpwyd penderfyniadau ar y cyd ynghylch unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r dogfennau.

Strategaeth chwilio

Cafodd y strategaeth chwilio ei datblygu gan dîm yr adolygiad, gyda mewnbwn gan WCPP, adolygwyr arbenigol, Llywodraeth Cymru, a grŵp o bobl ifanc LDHTC+ a hwyluswyd gan Plant yng Nghymru. Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn helpu i ddatblygu'r cwestiynau ymchwil a'r protocol adolygu. Mae'r protocol ar gael yn Atodiad B. Cafodd erthyglau eu cynnwys yn yr adolygiad os cawsant eu cyhoeddi rhwng 2014 a 2024, yn seiliedig ar astudiaethau empirig, ac yn adrodd ar ganfyddiadau o astudiaethau a gynhaliwyd mewn Gwledydd Incwm Uchel (HICs) gyda systemau addysg tebyg. Cynhaliwyd chwiliadau terfynol ym mis Mawrth 2024 ar draws chwe chronfa ddata (MEDLINE, ProQuest, Education Resources

Information Centre (ERIC), PsycINFO, Mynegai Addysg Prydain (BEI), a Web of Science). Mae'r llinynnau chwilio terfynol a ddefnyddiwyd ar gael yn Atodiad C.

Echdynnu data

Defnyddiwyd Microsoft Excel ar gyfer echdynnu data i drefnu'r broses adolygu, gyda newidiadau wedi'u gwneud i'r ddogfen echdynnu yn unol ag argymhelliad yr adolygwyr cymheiriaid. Cafodd y data eu hechdynnu gan ddau adolygydd a'u gwirio gan drydydd aelod o'r tîm.

Cyfosod data

Cafodd y data ei gyfosod gan ddefnyddio naratif cyfosod.

Asesu ansawdd

Cafodd ansawdd methodolegol yr erthyglau empirig ei werthuso'n feirniadol gan ddefnyddio'r Adnodd Gwerthuso Dulliau Cymysg (MMAT)³¹. Mae'r MMAT yn adnodd gwerthuso beirniadol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer cam gwerthuso adolygiadau astudiaethau cymysg systematig ac mae'n hwyluso'r broses o werthuso ansawdd methodolegol pum categori o astudiaethau: ymchwil ansoddol, hap-dreialon rheoledig, astudiaethau nad ydynt ar hap, astudiaethau disgrifiadol meintiol, ac astudiaethau dulliau cymysg. Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn adolygiadau systematig.


Dewis erthygl

Cyflwynir canlyniadau prosesau chwilio a dethol yr astudiaeth yn Ffigur 1. O'r chwiliad cychwynnol, ar ôl dileu astudiaethau dyblyg, nodwyd 27,755 o erthyglau. Ar ôl sgrinio'r crynodeb a'r teitl, cafodd y rhan fwyaf o'r erthyglau eu heithrio fel rhai amherthnasol i nodau'r adolygiad, gan adael 316 o erthyglau i'r broses sgrinio yn y cam testun llawn, a doedd dim modd cael gafael ar 5 o'r erthyglau hyn. Felly, 311 oedd y nifer terfynol o erthyglau testun llawn a gafodd eu sgrinio. Casglwyd fersiynau testun llawn, a chynhaliwyd y gwaith sgrinio yn erbyn y meini prawf cynnwys ac eithrio. Cafodd erthyglau eu heithrio am y rhesymau canlynol: poblogaeth anghywir, math anghywir o erthygl, canlyniad anghywir, neu osodiad anghywir, gan adael 99 o erthyglau wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn (gweler Ffigur 1 ar gyfer Diagram Llif PRISMA).

Nodweddion yr erthygl

Cynhaliwyd yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad mewn 11 o wledydd: 59 o Unol Daleithiau America, 17 o'r DU, 6 o Awstralia, 4 o Ganada a Seland Newydd, 3 o'r Ffindir, 2 o Iwerddon, ac 1 o bob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau canlynol: Cyprus, Hong Kong, Sbaen, a Sweden. Mae manylion yr holl astudiaethau i'w gweld yn Atodiad C. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a oedd yn cynnwys plant a phobl

ifanc yn dibynnu ar fesurau roeddent wedi'u cofnodi eu hunain neu naratifau o'u profiadau eu hunain.



Ffigur 1. Diagram Llif PRISMA.

Ansawdd yr astudiaethau sydd wedi'u cynnwys

Mae'r MMAT yn hwyluso'r gwaith o asesu ansawdd erthyglau gyda dyluniadau ansoddol, meintiol a dulliau cymysg. Gwneir y gwaith o sgorio erthyglau ar sail pum maen prawf a gellir sgorio erthyglau o 0-5 (neu 0-*****) gyda 5 yn sgôr uchaf, sy'n dangos bod yr holl feini prawf ansawdd yn cael eu bodloni. Mae sgôr MMAT ar gyfer pob erthygl a gyhoeddir mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid ar gael yn Atodiad C. Prif gyfyngiad yr astudiaethau oedd adrodd am ragfarn heb ymateb¹

¹ 'Gall ragfarn heb ymateb ddigwydd pan fydd pobl sy'n gwrthod cymryd rhan mewn astudiaeth, neu sy'n rhoi'r gorau iddi cyn y gellir cwblhau'r astudiaeth, yn wahanol yn systematig i'r rhai sy'n cymryd rhan' ³², sy'n gallu cyfyngu ar gyffredinolrwydd y canfyddiadau.

mewn astudiaethau meintiol a diffyg integreiddio cydrannau ansoddol a meintiol
mewn astudiaethau dulliau cymysg.

Anghenion a deilliannau myfyrwyr traws

Un o nodau'r adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth oedd archwilio llesiant ac anghenion addysgol a deilliannau myfyrwyr traws mewn lleoliadau addysg gynradd ac uwchradd fel y nodwyd yn y llenyddiaeth. Y ddau gwestiwn cyntaf yr oedd yr adolygiad yn ceisio eu hateb oedd: 1) Beth yw anghenion **llesiant** a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg? A 2) Beth yw'r anghenion a'r deilliannau **addysgol** ar gyfer plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg?

- Mae Tabl 2 yn cyflwyno'r dystiolaeth ar **ddeilliannau llesiant myfyrwyr traws** mewn lleoliadau addysgol, a sut mae'r rhain yn cymharu â deilliannau llesiant eu cyfoedion.
- Mae Tabl 3 yn adrodd ar y **ffactorau sy'n gysylltiedig â'r deilliannau llesiant** hyn ar gyfer myfyrwyr traws.
- Mae Tabl 4 yn cyflwyno'r **anghenion llesiant a fynegwyd gan fyfyrwyr traws** i wella eu profiad yn yr ysgol.
- Mae Tabl 5 yn cyflwyno'r dystiolaeth ar **ddeilliannau addysg myfyrwyr traws**, a sut mae'r rhain yn cymharu â deilliannau addysg eu cyfoedion.
- Mae Tabl 6 yn nodi'r **ffactorau sy'n gysylltiedig â'r deilliannau addysg** hyn ar gyfer myfyrwyr traws.
- Mae Tabl 7 yn cyflwyno'r **anghenion addysg a fynegwyd gan fyfyrwyr traws** i wella eu profiad yn yr ysgol.

Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y pynciau sy'n cael eu harchwilio ar draws y tablau hyn, yn enwedig yn Nhablau 2 a 3, oherwydd natur gydgysylltiedig y deilliannau. Er enghraifft, mae 'esgeuluso cyfoedion' wedi'i gynnwys yn Nhabl 2 fel 'canlyniad' i dynnu sylw at y cyfraddau uwch o fwlio a brofir gan fyfyrwyr traws, ac yn Nhabl 3 fel 'ffactor' i ddangos cysylltiad rhwng mwy o erledigaeth gan gyfoedion â deilliannau llesiant eraill gwaeth ymysg myfyrwyr traws. Yn yr un modd, mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y 'deilliannau llesiant' a restrir a'r 'ffactorau' y canfuwyd eu bod yn effeithio ar ddeilliannau addysgol. Dangoswyd bod rhai 'deilliannau llesiant' dynodedig hefyd yn gweithredu fel ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau addysgol myfyrwyr traws ac maent wedi'u cynnwys yn Nhabl 6.

Anghenion llesiant a deilliannau myfyrwyr traws

Deilliannau llesiant

Roedd myfyrwyr traws yn adrodd yn gyson am ddeilliannau llesiant gwaeth na'u cyfoedion, fel y dangosir yn Nhabl 2. Roedden nhw'n fwy tebygol na'u cyfoedion cisryweddol o brofi erledigaeth gan gyfoedion³³⁻³⁶ a dweud eu bod yn teimlo'n anniogel yn yr ysgol³⁶⁻³⁹. O'i gymharu â'u cyfoedion, roedd myfyrwyr traws yn llai tebygol o gael perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gydag aelodau o staff^{36,40} ac yn teimlo'n llai cysylltiedig a bod llai o groeso iddynt yn amgylchedd eu hysgol^{36,40,41}.

Roedd myfyrwyr traws hefyd yn fwy tebygol o adrodd am ganlyniadau iechyd meddwl negyddol na'u cyfoedion^{4,36,42,43}, gan gynnwys mwy o feddwl am hunanladdiad^{4,36,42,43} ac ymdrechion i gyflawni hunanladdiad^{42,44-46}, lefelau uwch o symptomau iselder^{4,34,36,41,44,45,47}, hunan-niweidio^{44,46}, a hunan-barch is⁴¹. Dywedodd myfyrwyr traws hefyd eu bod yn yfed alcohol ac yn cymryd sylweddau eraill yn amlach na'u cyfoedion cisryweddol^{4,42,48}.

Croestoriadedd

Ychydig iawn o astudiaethau oedd yn archwilio'r croestoriad rhwng hunaniaethau traws ag ethnigrwydd neu gyfeiriadedd rhywiol, a'i rôl wrth lywio deilliannau llesiant. Canfu un astudiaeth ar y croestoriad rhwng hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol fod myfyrwyr traws a nododd eu bod yn heterorywiol ychydig yn llai tebygol o deimlo'n anniogel yn yr ysgol na myfyrwyr traws a nododd eu bod yn lesbiaidd, hoyw a deurywiol³⁷. Yn yr un modd, canfu astudiaeth arall fod myfyrwyr traws a oedd yn heterorywiol yn llai tebygol na myfyrwyr lesbiaidd, deurywiol a hoyw traws o ddweud bod ganddynt gynllun i ladd eu hunain neu eu bod wedi ceisio lladd eu hunain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf⁴⁵. Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd myfyrwyr traws â hunaniaeth lesbiaidd, deurywiol a hoyw eu bod yn profi mwy o erledigaeth gan gyfoedion o'i gymharu â'u cyfoedion heterorywiol⁴⁹. Canfu astudiaethau eraill fod myfyrwyr traws o liw yn dweud eu bod yn fwy ofnus o drais corfforol⁵⁰, bod mwy o siawns iddynt brofi trais ar ddê⁴⁶, a bod myfyrwyr traws o liw yn teimlo eu bod yn wynebu mwy o erledigaeth gan gymheiriaid ac arwahanrwydd cymdeithasol na'u cyfoedion gwyn⁵¹. Dywedodd myfyrwyr traws o liw eu bod yn wynebu aflonyddu ar sail rhywedd ac ar sail hil, gan ddwysáu'r erledigaeth roeddent yn ei hwynebu mewn ysgolion^{51,52}.

I'r gwrthwyneb, canfu rhai astudiaethau yn Unol Daleithiau America fod myfyrwyr traws a oedd yn nodi eu bod yn wyn neu'n hil gymysg yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn profi tristwch cronig na'u cyfoedion traws o gefndiroedd eraill o ran hil⁵⁰, a bod

myfyrwyr gwyn o leiafrifoedd rhywedd yn fwy tebygol o adrodd am erledigaeth gan gyfoedion na myfyrwyr o leiafrifoedd rhywedd o ethnigrwydd arall⁵³. Mae canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cydnabod rôl hunaniaethau croestoriadol wrth ystyried deilliannau llesiant myfyrwyr traws.

Tabl 2: Deilliannau llesiant i fyfyrwyr traws

Canlyniad	Deilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
Bwlio / erledigaeth gan gyfoedion	Soniodd myfyrwyr traws yn gyson am fwy o erledigaeth gan gyfoedion, o'i gymharu â myfyrwyr cis ³³⁻³⁶ . Canfu un astudiaeth, sy'n seiliedig ar ddata o arolwg trawstoriadol mawr o fyfyrwyr ysgol yn Unol Daleithiau America, fod myfyrwyr traws 11 oed ac iau yn wynebu cyfraddau uwch o fwlio o'i gymharu â myfyrwyr traws rhwng 12 ac 17 oed (sgôr MMAT=4/5, n=728,204) ³⁴ . Canfu astudiaeth sy'n defnyddio data o Arolwg Plant Iach California (CHKS) 2013-2015 ac Arolwg Myfyrwyr California (CSS) ³⁸ (sgôr MMAT5/5, n=838,814; 806,918 from the CHKS and 31,896 o'r CSS) fod myfyrwyr trawsryweddol chwe gwaith yn fwy tebygol o brofi bwlio ar sail rhywedd ² ac wyth gwaith yn fwy tebygol o brofi bwlio homoffobig ³ na'u cyfoedion cis ³⁸ . Roedd myfyrwyr trawsryweddol yn aml yn cael eu bwlio'n drawsffobig, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'u hunaniaeth o ran rhywedd. Soniwyd yn gyffredin am gamrywedd ⁴ , defnyddio rhagenwau anghywir, a chamenwi ⁵ fel mathau o fwlio geiriol a brofir gan fyfyrwyr traws ^{51,54} .
Mynd ar ddê / trais rhywiol	Roedd myfyrwyr traws yn yr ysgol uwchradd yn fwy tebygol o brofi trais ar ddê ^{46,48} a thrais rhywiol na'u cyfoedion ^{35,46,48,53} . Canfu astudiaeth a oedd yn defnyddio data o Arolwg Risg a Gwynwch Ieuenctid New Mexico 2017 (sgôr MMAT=4/5, n=18,451) ⁴⁶ fod cysylltiad sylweddol rhwng hunaniaeth lleiafrifoedd rhywedd ac 1.43 gwaith yn fwy tebygol o brofi trais yn y byd go iawn

²Mesurwyd bwlio ar sail rhywedd fel 'profiadau o gael eich harasio neu eich bwlio ar eiddo'r ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf "oherwydd eich rhyw".'³⁸

³ Mesurwyd bwlio homoffobig fel 'profiadau o gael eich harasio neu eich bwlio ar eiddo'r ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf "oherwydd eich bod yn hoyw neu'n lesbiad, neu fod rhywun yn meddwl eich bod chi".'³⁸

⁴ 'Ystyr camrywedd yw pan fydd rhywun yn defnyddio rhagenwau personol anghywir yn fwriadol, neu iaith arall sy'n gwadu rhywedd person.'⁶

⁵ 'Camenwi yw defnyddio enw blaenorol rhywun yn fwriadol ar ôl iddyn nhw ei newid fel rhan o'r broses drawsnewid.'⁶

Canlyniad	Deilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
	(AOR=1.43 [95% CI 1.25-1.64]) ⁶ ac 1.73 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais rhywiol (AOR=1.73 [95% CI 1.45-2.06]) yn yr ysgol uwchradd ⁴⁶ . Canfu astudiaeth arall o Unol Daleithiau America sy'n seiliedig ar bum grŵp ffocws anghydamserol ar-lein gyda 28 o fyfyrwyr LHDTTC ac 19 o weithwyr iechyd proffesiynol mewn ysgolion (sgôr MMAT=5/5) ⁵¹ fod merched trawsryweddol yn arbennig o agored i ymosodiad rhywiol.
Ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol	Roedd myfyrwyr trawsryweddol ac anghydfurfiol (GNC) yn yr ysgol gynradd ac uwchradd yn teimlo eu bod yn cael llai o groeso yn yr ysgol na'u cyfoedion ⁵⁵ . Nododd myfyrwyr traws yn yr ysgol uwchradd lefelau is o gysylltiad â'r ysgol ^{36,40} , a lefelau is o ymdeimlad o berthyn i'r ysgol ⁴¹ o'i gymharu â'u cyfoedion. Canfu adroddiad a oedd yn seiliedig ar CHKS 2017-2019 (sgôr MMAT=Amh, n=800,000) ³⁶ mai pedwar o bob deg myfyriwr trawsryweddol oedd yn teimlo cysylltiad â'r ysgol, o'i gymharu â chwech o bob deg myfyriwr cisryweddol ³⁶ .
Perthynas â staff	Mewn astudiaeth ansoddol sy'n defnyddio cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda phlant a rhieni (sgôr MMAT =5/5, n=40; 30 o rieni a 10 o fyfyrwyr) ⁵⁶ ac astudiaeth sy'n defnyddio data arolwg ar raddfa fawr (sgôr MMAT=Amh, n=281) ⁵⁵ , dywedodd myfyrwyr trawsryweddol yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd fod eu perthynas ag aelodau o staff yn llai cefnogol na rhai eu cyfoedion ^{55,56} . O'u cymharu â'u cyfoedion, roedd myfyrwyr traws yn yr ysgol uwchradd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn meddwl bod athrawon yn poeni am eu llesiant ⁴⁰ (o astudiaeth feintiol yn seiliedig ar ddata arolwg gan fyfyrwyr o Awstralia; sgôr MMAT=4/5, n=685) ⁴⁰ yn ystod y flwyddyn ysgol, neu fod ganddynt berthynas ofalgar ag oedolyn yn yr ysgol ³⁶ .
Teimlo'n ddiogel	Roedd myfyrwyr trawsryweddol yn yr ysgol gynradd ⁵⁵ a'r ysgol uwchradd yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn yr ysgol na'u cyfoedion ^{36-39,55} . Canfu astudiaeth yn Unol Daleithiau America

⁶ Roedd y Cymarebau wedi'u Haddasu (AORs) ar gyfer yr astudiaeth hon yn rheoli 'rhyw, lefel gradd, hil ac ethnigrwydd (wedi'u cyfuno), daearyddiaeth sir ysgol, addysg rhieni ar gyfartaledd, gwlad enedigol, iaith yr arolwg, anabledd corfforol, a thai ansefydlog.⁴⁶

Canlyniad	Deilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
	fod myfyrwyr traws yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn yr ysgol o'i gymharu â'u cyfoedion cisryweddol ³⁸ .
Iechyd meddwl a llesiant cyffredinol	Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol ^{4,36,42,43} a GNC ⁴² yn fwy tebygol o brofi canlyniadau iechyd meddwl negyddol na'u cyfoedion. Ar ben hynny, canfu astudiaeth feintiol sy'n seiliedig ar ddata arolwg gan fyfyrwyr o Sweden (sgôr MMAT=5/5, n=8,385) ⁵⁷ fod cyfran uwch o fyfyrwyr uwchradd anneauaid yn dweud bod ganddynt ragolwg tywyll o ran y dyfodol ⁷ (23.4%) na'u cyfoedion sydd â hunaniaeth ddeuaidd o ran rhywedd (4.6%) ⁵⁷ .
Syniadaeth am hunanladdiad neu ymgais i wneud hynny	Nododd myfyrwyr uwchradd trawsryweddol lefelau uwch o feddwl am hunanladdiad ^{36,42,45,48,50,58} ac ymdrechion i gyflawni hunanladdiad ^{42,44-46} na'u cyfoedion cisryweddol. Canfu adroddiad yn Unol Daleithiau America fod myfyrwyr traws yn yr ysgol ganol a'r ysgol uwchradd yn fwy tebygol o gael syniadau am hunanladdiad (52% a 53% yn y drefn honno) na'u cyfoedion cisryweddol (14% a 16% yn y drefn honno) ³⁶ . Canfu astudiaeth arall a oedd yn defnyddio data gwyliadwriaeth a ddarparwyd gan fyfyrwyr blwyddyn 9 ac 11 ym Minnesota (sgôr MMAT=4/5, n=81,885) ⁴² fod 61.3% o fyfyrwyr trawsryweddol a myfyrwyr nad ydynt yn cydymffurfio â rhywedd (TGNC) wedi meddwl am syniadau hunanladdiad (o'i gymharu ag 20% o fyfyrwyr cisryweddol) a bod 31% o fyfyrwyr TGNC wedi nodi ymgais i gyflawni hunanladdiad (o'i gymharu â 7.1% o fyfyrwyr cisryweddol) ⁴² .
Iselder	Canfu astudiaeth feintiol sy'n defnyddio data arolwg o CKHS 2013-2015 (sgôr MMAT=4/5, n=728,204) ³⁴ fod gan fyfyrwyr ysgol gynradd trawsryweddol fwy o symptomau iselder na'u cyfoedion ³⁴ . Roedd cyfraddau symptomau iselder disgyblion ysgol uwchradd trawsryweddol ^{4,34,36,39,44,45,47} a GNC ⁵ yn uwch na'u cyfoedion cisryweddol sy'n cydymffurfio â rhywedd. Canfu adroddiad yn Unol Daleithiau America fod myfyrwyr traws yn yr ysgol ganol a'r

⁷ Cafodd 'rhagolygon y dyfodol' ei fesur drwy'r cwestiwn 'sut ydych chi'n gweld y dyfodol o'ch rhan chi'n bersonol?' gyda 'Eithaf disglair/disglair iawn', 'Ddim yn ddisglair nac yn dywyll', a 'Eithaf tywyll/tywyll iawn fel ymatebion posibl'.⁵⁷

Canlyniad	Deilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
	ysgol uwchradd yn fwy tebygol o nodi tristwch cronig (61% a 63% yn y drefn honno) na'u cyfoedion cisryweddol (26% a 33% yn y drefn honno) ³⁶ . Canfu astudiaeth feintiol sy'n defnyddio data arolwg yn y DU (sgôr MMAT=5/5, n=6,672) ⁴ fod myfyrwyr rhywedd lleiafrifol bedair gwaith yn fwy tebygol o adrodd am anhwylder iselder tebygol, o'i gymharu â'u cyfoedion cisryweddol ⁴ .
Hunan-niweidio	Nododd fyfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol lefelau uwch o hunan-niweidio o'u cymharu â'u cyfoedion cisryweddol ^{44,46} . Canfu astudiaeth yn Unol Daleithiau America fod cyfraddau hunan-niweidio ymysg myfyrwyr rhywedd lleiafrifol yn y gorffennol yn uwch (49%) na'u cyfoedion cisryweddol (18%) ⁴⁶ .
Hunan-barch	Canfu astudiaeth feintiol yn seiliedig ar ddata arolwg yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=4/5, n=15,813) ⁴¹ fod hunan-barch myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol yn is na'u cyfoedion, ac roedd gan fyfyrwyr uwchradd anneuaidd lai o hunan-barch na'u cyfoedion â hunaniaeth ddeuaidd o ran rhywedd ⁴¹ .
Ymddygiad gwael o ran rheoli pwysau	Canfu astudiaeth feintiol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data'r arolwg (sgôr MMAT=4/5, n=54,88) fod myfyrwyr ysgol uwchradd GNC mewn mwy o berygl o ymddwyn yn wael o ran rheoli pwysau ⁸ na'u cyfoedion sy'n cydymffurfio â rhywedd ⁵⁹ .
Defnyddio alcohol a sylweddau	Dywedodd myfyrwyr uwchradd trawsryweddol eu bod yn yfed llawer iawn o alcohol a sylweddau eraill ^{4,42,48} . Canfu astudiaeth feintiol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data'r arolwg (sgôr MMAT=4/5, n=4,478) ⁶⁰ yn ystod y 30 diwrnod diwethaf, fod 14.1% o fyfyrwyr trawsryweddol wedi dweud eu bod wedi ysmegu sigarennau, 22.6% wedi dweud eu bod wedi defnyddio mariwana, a bod 18.9% wedi dweud eu bod wedi yfed pump neu fwy o ddiodydd alcoholig ⁶⁰ . Canfu astudiaeth yn y DU fod myfyrwyr rhywedd lleiafrifol yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon na'u cyfoedion ⁴ .

⁸Mae 'ymddygiadau gwael o ran rheoli pwysau' yn cyfeirio at gamau a gymerir i golli neu i gynnal pwysau, fel cymryd carthyddion neu dabledi deiet heb eu rhagnodi, colli prydau bwyd, neu wneud i chi'ch hun chwydu⁵⁹.

Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant

Roedd y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn nodi nifer o ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ddeilliannau sy'n gysylltiedig â llesiant ar gyfer myfyrwyr traws, fel y dangosir yn Nhabl 3. Canfuwyd bod diffyg athrawon cefnogol yn gysylltiedig â mwy o erledigaeth gan gyfoedion⁶¹, tebygolrwydd uwch o deimlo'n anniogel oherwydd eu mynegiant rhywedd³⁹, lefelau llesiant is⁶² a mwy o debygolrwydd o ddefnyddio sylweddau⁶⁰ ymysg myfyrwyr traws. Yn yr un modd, roedd diffyg cyfoedion cefnogol yn gysylltiedig â mwy o erledigaeth gan gyfoedion⁶¹, lefelau llesiant is⁶² a mwy o symptomau iselder⁶³ ymysg myfyrwyr traws.

Roedd presenoldeb cymorth gan yr ysgol, sy'n cynnwys perthnasoedd gofalgar ag oedolion, disgwyliadau uchel i fyfyrwyr, cyfleoedd ystyrlon i gymryd rhan, ac annog cyfranogiad rhieni⁹, yn gysylltiedig â mwy o gysylltiad â'r ysgol a llai o debygolrwydd o iechyd meddwl gwaeth, gan gynnwys llai o feddwl am hunanladdiad³⁶.

Roedd profi erledigaeth gan gyfoedion yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwaeth^{43,58}, gan gynnwys mwy o symptomau iselder^{34,43,52,63,64} ymhlith myfyrwyr traws. Roedd teimlo'n anniogel yn yr ysgol yn gysylltiedig â llai o gysylltiad â'r ysgol³⁶ a mwy o debygolrwydd o ganlyniadau iechyd meddwl negyddol, gan gynnwys mwy o feddwl am hunanladdiad³⁶ ymysg myfyrwyr traws.

⁹ Roedd 'Annog cyfranogiad rhieni' yn seiliedig ar raddfa tair eitem ('Mae athrawon yn yr ysgol hon yn cyfathrebu â rhieni; mae croeso i rieni gymryd rhan yn yr ysgol hon; mae staff yr ysgol yn cymryd pryderon rhieni o ddifrif.'), sy'n cael eu mesur gan 'ganran y myfyrwyr sy'n ymateb "cytuno" neu "cytuno'n gryf" i bob eitem ar y raddfa'.³⁶

Tabl 3: Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant i fyfyrwyr traws

Canlyniad	Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
Bwlio / erledigaeth gan gyfoedion	– Canfu astudiaeth dulliau cymysg yn Awstralia sy'n defnyddio data arolygon a chyfweliadau (sgôr MMAT=4/5, n=189)⁶¹ fod myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd nad oedd ganddynt athrawon cefnogol yn profi mwy o erledigaeth gan gyfoedion⁶¹. Yn ôl astudiaeth ansoddol o'r DU sy'n defnyddio data arolwg penagored (sgôr MMAT=4/5, n=74)⁶⁵ roedd athrawon nad oeddent yn deall nac yn mynd i'r afael ag erledigaeth gan gyfoedion tuag at fyfyrwyr Pobl LHDTTC+ yn cael eu gweld fel eu bod yn cymeradwyo ymddygiadau bwlio o'r fath mewn modd dilys a chynnil⁶⁵. – Roedd myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd a chanddynt gyd-fyfyrwyr cefnogol yn llai tebygol o brofi erledigaeth gan gyfoedion yn yr ysgol⁶¹. – Canfu adroddiad meintiol o Unol Daleithiau America a oedd yn defnyddio data'r arolwg (sgôr MMAT=Amh, n=22,298)³⁹ fod myfyrwyr uwchradd oedd â GSA (Cynghrair Rhywedd a Rhywioldeb/Cynghrair Hoyw-Syth) yn eu hysgol yn profi llai o erledigaeth gan gyfoedion oherwydd eu mynegiant rhywedd³⁹. – Roedd myfyrwyr uwchradd a oedd ag ysgol gyda chwricwlwm cynhwysol LDHTC+ yn profi llai o erledigaeth gan gyfoedion oherwydd eu mynegiant rhywedd³⁹.
Teimladau o berthyn i'r ysgol	– Dywedodd myfyrwyr ysgol uwchradd a brofodd fwy o fwlio oherwydd eu mynegiant rhywedd eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn llai i'r ysgol³⁹. – Dywedodd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol a oedd yn gweld presenoldeb cymorth yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol eu bod yn teimlo cysylltiad gwell â'r ysgol uwchradd^{36,67}. – Dangosodd astudiaeth yn Unol Daleithiau America sy'n seiliedig ar ddata gwerthuso rhaglenni peilot (sgôr MMAT= 5/5, n=34)⁶⁸ mai dim ond 10% o fyfyrwyr a ddywedodd fod eu hinsawdd ysgol yn ddiogel, yn gefnogol ac yn gwbl gyfeillgar i bobl draws⁶⁸.

Canlyniad	Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
Teimlo'n ddiogel	– Roedd myfyrwyr uwchradd a chanddynt lawer o staff cefnogol yn yr ysgol yn llai tebygol o deimlo'n anniogel oherwydd eu mynegiant rhywedd³⁹.
Iechyd meddwl a llesiant	– Roedd myfyrwyr traws ysgol uwchradd nad oeddent yn teimlo bod cefnogaeth yn yr ysgol ac oedd yn teimlo'n anniogel yn yr ysgol yn fwy tebygol o ddioddef iechyd meddwl negyddol³⁶. – Canfu astudiaeth ansoddol o Ganada sy'n seiliedig ar ddata cyfweiliadau (sgôr MMAT=5/5, n=12)⁶² fod myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd heb athrawon a oedd yn cefnogi amrywiaeth rhywedd yn nodi lefelau gwaeth o ran llesiant⁶². – Nododd myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd oedd â chyfoedion cefnogol lefelau llesiant uwch⁶². – Roedd straen rhywedd lleiafrifol⁵⁶ (GMS)¹⁰, trawma yn yr ysgol, a methiant ysgolion i ddiogelu disgyblion traws⁷⁰ yn cael effaith negyddol ar llesiant myfyrwyr traws yn yr ysgol gynradd a'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd. – Roedd erledigaeth gan gyfoedion yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwaeth ymhlith myfyrwyr trawsryweddol^{43,58}. – Yn ôl astudiaeth yn Awstralia sy'n seiliedig ar ddata'r arolwg (sgôr MMAT=4/5, n=5,868)⁷¹ roedd amgylchedd addysgol a oedd yn cadarnhau rhywedd pobl ifanc traws¹¹ yn gysylltiedig â lefelau uwch o hapusrwydd ($\beta = 0.15$, CI = 0.11–0.19, $p < 0.001$)¹² a lefelau is o drallod seicolegol ($\beta = -0.91$, CI = -1.19–0.63, $p < 0.001$)⁷¹.

¹⁰ 'Mae straen rhywedd lleiafrifol (GMS) yn cyfeirio at ffactorau cymdeithasol sy'n achosi straen fel gwahaniaethu a stigma a brofir gan rywedd lleiafrifol.'⁶⁹

¹¹ Defnyddiwyd y raddfa ganlynol i asesu profiadau myfyrwyr o leoliadau addysgol cadarnhaol: 'Defnyddio'r ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd newid sy'n cyd-fynd â'm hunaniaeth o ran rhywedd', 'Defnyddio'r enw neu'r rhagenwau o'm dewis', 'Gwisgo dillad sy'n cyd-fynd â'm hunaniaeth o ran rhywedd', 'Uniaethu'n agored ag LGBTIQA+' a 'Dathlu diwrnod "Wear it Purple Day", IDAHOBIT, neu Ddiwrnod Gwelededd Trawsrywioldeb neu ddiwrnod arall pwysig i bobl LGBTIQA+'.⁷¹

¹² Yn yr astudiaeth hon, mae'r holl ganlyniadau β 'wedi'u rheoli ar gyfer newidynnau demograffig-gymdeithasol gan gynnwys rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, lefel addysg, gwlad a lleoliad preswyl'.⁷¹

Canlyniad	Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
Syniadaeth am hunanladdiad neu ymgais i wneud hynny	– Roedd myfyrwyr traws ysgol uwchradd oedd yn teimlo bod cefnogaeth yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol yn llai tebygol o gael syniadau am hunanladdiad³⁶. – Canfu astudiaeth feintiol yn Unol Daleithiau America sy'n seiliedig ar ddata'r arolwg (sgôr MMAT=4/5, n=2,438)⁷² fod myfyrwyr ysgol uwchradd a brofodd fwy o fwlio oherwydd eu mynegiant rhywedd yn fwy tebygol o roi gwybod am syniadau, cynlluniau ac ymdrechion i ladd eu hunain⁷². – Canfu astudiaeth feintiol arall yn yr Unol Daleithiau sy'n seiliedig ar ddata'r arolwg (sgôr MMAT=5/5, n= 46,537)⁷³ fod cymryd rhan mewn dau dîm chwaraeon (AOR = 0.27, 95% CI: 0.11-0.66; p < 0.5)¹³ neu dri neu fwy o dimau chwaraeon (AOR = 0.40, 95% CI: 0.17–0.94; p < .05) yn gysylltiedig â llai o siawns o feddwl am hunanladdiad ymhlith myfyrwyr trawsryweddol⁷³.
Iselder	– Roedd erledigaeth gan gyfoedion yn gysylltiedig yn gadarnhaol â symptomau iselder ymysg myfyrwyr trawsryweddol^{34,43,52,63,64}. – Canfu astudiaeth feintiol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data'r arolwg (sgôr MMAT=4/5, n=265)⁶³ fod gan fyfyrwyr trawsryweddol a oedd yn teimlo mwy o gysylltiad â'r ysgol a chyfoedion lai o symptomau iselder⁶³. – Yn ôl astudiaeth ansoddol a oedd yn defnyddio data hydredol (sgôr MMAT=4/5, n=129)⁷⁴, roedd defnyddio enw o ddewis yn yr ysgol yn arwain at lai o symptomau iselder ¹⁴ ($b = -0.47$, $SE = 0.18$, $p < .001$)⁷⁴ ymysg myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion uwchradd.

¹³Roedd yr holl AORs ar gyfer yr astudiaeth hon yn rheoli 'rhyw, gradd, ethnigrwydd, hil, BMI, a chwsg'.⁷³

¹⁴Roedd y canlyniadau hyn yn cael eu rheoli ar sail hil/ethnigrwydd, hunaniaeth rywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, lleoliad, oedran, ac enghreifftiau eraill o ddefnyddio enwau a ddewiswyd.⁷⁴

Canlyniad	Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau llesiant i fyfyrwyr traws
	– Roedd cymryd rhan mewn tri thîm chwaraeon neu fwy yn gysylltiedig â llai o debygolrwydd o iselder ymhlith myfyrwyr trawsryweddol¹⁵ (AOR =0.32 95% CI: 0.15–0.69, $p < .05$)⁷³.
Hunan-barch	– Dywedodd myfyrwyr ysgol uwchradd a brofodd fwy o fwlio oherwydd eu mynegiant rhywedd bod ganddynt lai o hunan-barch^{39,64}. – Ymysg myfyrwyr trawsrywedd ysgolion uwchradd, roedd defnyddio enw a ddewiswyd yn yr ysgol yn arwain at fwy o hunan-barch¹⁶ ($b = 0.35$, $SE = 0.16$, $p = .03$)⁷⁴.
Defnyddio sylweddau	– Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol â lefelau uwch o gysylltiad â'r ysgol yn llai tebygol o ddefnyddio dros 30 o sigaréts y diwrnod neu o oryfed mewn pyliau⁶⁰. – Roedd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgol uwchradd â lefelau uwch o gymorth i oedolion yn yr ysgol yn llai tebygol o ddefnyddio dros 30 o sigaréts y diwrnod, ac roedd llai o debygolrwydd eu bod wedi defnyddio mariwana neu sigaréts yn yr ysgol yn ystod y 30 diwrnod diwethaf⁶⁰. – Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd a brofodd fwy o fwlio oherwydd eu mynegiant rhywedd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio sigaréts a chyffuriau eraill (ac eithrio marijuana) yn ystod y 3 mis diwethaf⁷².

¹⁵Roedd yr holl AORs ar gyfer yr astudiaeth hon yn rheoli 'rhyw, gradd, ethnigrwydd, hil, BMI, a chwsg'.⁷³

¹⁶Roedd y canlyniadau hyn yn cael eu rheoli ar sail hil/ethnigrwydd, hunaniaeth rywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, lleoliad, oedran, ac enghreifftiau eraill o ddefnyddio enwau a ddewiswyd.⁷⁴

Anghenion llesiant

Soniodd myfyrwyr traws am nifer o anghenion yn ymwneud â llesiant a allai, petaent yn cael sylw, wella eu profiad yn yr ysgol, fel y dangosir yn Nhabl 4. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o barodrwydd gan staff i fynd i'r afael â sylwadau trawsffobig¹⁷ a wnaethpwyd gan fyfyrwyr^{55,56,65,75,76} a'r gallu i roi gwybod am fwlio heb ofni datgelu hunaniaeth rhywedd rhywun neu wynebu mwy o aflonyddu⁷⁷, fel anghenion heb eu diwallu gan fyfyrwyr traws. Mynegodd myfyrwyr traws hefyd yr angen am amgylcheddau ysgol sy'n derbyn amrywiaeth o ran rhywedd a mynegiant hunaniaethau rhywedd gwahanol^{61,65,70,78–80}, gan gynnwys yr angen am doiledau ac ystafelloedd newid sy'n ddiogel ac yn gyfforddus i fyfyrwyr traws^{61,65,70,78–80}.

¹⁷ Gellir diffinio trawsffobia fel rhagfarn tuag at bobl draws fel unigolion ac fel grŵp.⁷⁵

Tabl 4: Anghenion llesiant myfyrwyr traws

Angen	Anghenion llesiant myfyrwyr traws
Mwy o barodrwydd gan staff i herio myfyrwyr am sylwadau neu ficro-ymosodiadau trawsffobig	Dywedodd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd ^{55,56} ac uwchradd ^{55,56,65,75,76} fod athrawon yn anwybyddu sylwadau trawsffobig gan fyfyrwyr eraill yn aml. Nodwyd bod staff yn llai tebygol o roi sylw i ficroymosodiadau a sylwadau trawsffobig, sy'n aml yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth (yn hytrach na rhagfarn fwriadol amlwg) ^{56,75} .
Gallu rhoi gwybod am achosion o fwlio heb ofn	Canfu astudiaeth yn Awstralia a oedd yn defnyddio data cyfweiliadau lled-strwythuredig (sgôr MMAT=5/5, n=34) ⁷⁷ fod rhai myfyrwyr trawsryweddol yn yr ysgol uwchradd yn amharod i roi gwybod am fwlio oherwydd ofn y byddai gwneud hynny'n arwain at ddatgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd neu'n arwain at fwy o erledigaeth ⁷⁷ .
Mynediad at grwpiau ieuencid cefnogol i bobl draws	Canfu astudiaeth ansoddol o Iwerddon a oedd yn defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=5/5, n=13) ⁸¹ ac adroddiad ansoddol yn y DU a oedd hefyd yn defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=Amh, n=136) ⁸² fod myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol yn gwerthfawrogi grwpiau ieuencid LHDTTC+ fel mannau pwysig lle gallent drafod hunaniaeth o ran rhywedd a meithrin perthnasoedd cefnogol â myfyrwyr traws eraill a myfyrwyr LHDTTC+ eraill ^{81,82} .
Hinsawdd yr ysgol sy'n cefnogi mynegiant o amrywiaeth o ran rhywedd	Roedd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn myfyrio ar bwysigrwydd hinsawdd ysgol a oedd yn cefnogi mynegi amrywiaeth o ran rhywedd fel rhywbeth sy'n allweddol i'w llesiant a'u cymhelliant addysgol ^{61,65,70,78-80} . Nododd myfyrwyr traws fod caniatáu ar gyfer addasu enwau a rhywedd yng nghronfeydd data ysgolion, ynghyd â defnyddio enwau a rhagenwau o ddewis, yn agweddau pwysig ar hinsawdd ysgol gefnogol ^{55,61,80} . Canfu astudiaeth ansoddol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=4/5, n=10) ⁸³ fod myfyrwyr trawsryweddol sydd wedi profi hinsawdd anghefnogol mewn ysgol wedi nodi profiadau mwy negyddol o ran yr ysgol, gan gynnwys achosion lle'r oedd staff yn cosbi myfyrwyr nad oeddent yn cydymffurfio â rhywedd deuaidd a mynegiannau disgwylidiedig o ran rhywedd ⁸³ .
Ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid	Dywedodd myfyrwyr trawsryweddol ysgol gynradd ^{55,56,77,84} ac uwchradd ^{55,56,77} fod angen ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid yr oeddent yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu

sy'n ddiogel ac yn
gyfforddus

defnyddio. Roedd toiledau ysgol ac ystafelloedd newid yn aml yn atgyfnerthu'r syniad o rywedd fel rhywedd deuol⁸⁵, a chyfeiriwyd atynt fel mannau cyffredin lle'r oedd myfyrwyr trawsryweddol yn wynebu erledigaeth gan gyfoedion^{77,86}, gyda llawer o fyfyrwyr traws yn dweud eu bod yn osgoi defnyddio'r mannau hyn^{55,76,78,80,84}.

Anghenion a deilliannau addysg myfyrwyr traws

Deilliannau addysg

Roedd myfyrwyr traws yn adrodd yn gyson am ddeilliannau addysg gwaeth na'u cyfoedion, fel y dangosir yn Nhabl 5. Roedd perfformiad ac ymgysylltiad^{36,55} academiaidd myfyrwyr traws^{33,36,87} yn waeth na'u cyfoedion, ac roeddent yn profi mwy o gamau disgyblu o'i gymharu â'u cyfoedion⁸⁸. Roedd myfyrwyr traws yn aml yn wynebu ymyriadau i'w haddysg, gan gyfeirio'n aml at amgylcheddau anniogel ac anghefnogol fel rhesymau dros drosglwyddo neu adael yr ysgol^{39,70,78}. O'i gymharu â'u cyfoedion cisryweddol, roedd myfyrwyr traws yn fwy tebygol o osgoi'r ysgol a thriwanta^{33,36,39,57}. Roedd myfyrwyr traws hefyd yn llai tebygol o nodi bwriad i barhau mewn addysg ôl-uwchradd na'u cyfoedion cisryweddol^{39,89}.

Tabl 5: Deilliannau addysg i fyfyrwyr traws

Canlyniad	Deilliannau addysg i fyfyrwyr traws
Gohirio addysg	Dyweddodd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod wedi gadael yr ysgol oherwydd amgylcheddau anniogel ac anghefnogol ^{70,78} lle roeddent yn wynebu aflonyddu, microymosodiadau, bwlio neu drais ⁷⁰ . Canfu adroddiad yn yr Unol Daleithiau a oedd yn seiliedig ar ddata'r arolwg (sgôr MMAT=Amh, n=7,898) ⁸⁸ fod myfyrwyr trawsryweddol yn fwy tebygol o ddweud efallai na fyddant yn cwblhau'r ysgol uwchradd (7.6%), o'i gymharu â myfyrwyr LHDC cisryweddol (2.1% o fechgyn cis a 2.3% o ferched cis) ⁸⁸ .
Trosglwyddo ysgolion	Canfu astudiaeth ansoddol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=5/5, n=21) ⁷⁸ fod myfyrwyr trawsryweddol wedi sôn am orfod trosglwyddo i wahanol ysgolion uwchradd ⁷⁸ , gyda myfyrwyr traws ac anneauaid yn fwy tebygol na myfyrwyr cis o newid ysgolion uwchradd oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus ³⁹ .
Bwriadau o ran addysg ôl-uwchradd	Roedd myfyrwyr Traws a GNC yn teimlo'n llawer llai hyderus o ran eu bwriadau addysg ôl-uwchradd na myfyrwyr eraill ⁵⁵ . Roedd myfyrwyr cisryweddol yn fwy tebygol o anelu ⁸⁹ at ddilyn addysg ôl-uwchradd neu gynllunio ³⁹ i wneud hynny na myfyrwyr trawsryweddol ac anneauaid. Canfu un astudiaeth yn Unol Daleithiau America mai dim ond 83.8% o fyfyrwyr trawsryweddol ac 86.8% o fyfyrwyr anneauaid oedd â chynlluniau i ddilyn addysg ôl-uwchradd, o'i gymharu â 92.2% o fyfyrwyr cisryweddol ³⁹ .
Presenoldeb	Roedd gan fyfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyfraddau presenoldeb sylweddol is na'u cyfoedion cis ⁵⁵ . Roedd lefelau myfyrwyr ysgol uwchradd traws ^{33,36,39} anneauaid ^{39,57} a GNC ^{5,90} o ran osgoi'r ysgol a thriwantiaeth yn uwch na'u cyfoedion. Canfu astudiaeth feintiol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data'r arolwg (sgôr MMAT=4/5, n=113,148) ³³ fod myfyrwyr traws 1.64 gwaith yn fwy tebygol o driwanta o'i gymharu â myfyrwyr cis ³³ a nododd astudiaeth yn Sweden fwy o driwanta ymhlith myfyrwyr anneauaid (49.6%) o'i gymharu â'u cyfoedion deuaidd (36.5%) ⁵⁷ . Roedd pryderon am ddiogelwch ^{39,90} , materion iechyd meddwl ⁵⁸ a chamddefnyddio sylweddau ^{38,58} yn aml yn cael eu crybwyll fel rheswm pam fod myfyrwyr traws yn colli'r ysgol.

Canlyniad	Deilliannau addysg i fyfyrwyr traws
Cyrhaeddiad academiaidd	Roedd graddau myfyrwyr trawsryweddol yn yr ysgol uwchradd yn is ^{33,36} ac roedd eu cyrhaeddiad academiaidd yn waeth ⁸⁷ na'u cyfoedion cis. Canfu astudiaeth yn Unol Daleithiau America fod 57% o fyfyrwyr ysgol ganol trawsryweddol a 50% o fyfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol yn dweud bod eu graddau'n uchel, o'i gymharu â'u cyfoedion cisryweddol (68% a 64% yn y drefn honno) ³⁶ . Canfu astudiaeth yn Sweden fod cyfran uwch o fyfyrwyr ysgol uwchradd anneauaidd (36.5%) yn methu o leiaf un pwnc, o'i gymharu â'u cyfoedion â hunaniaeth ddeuaidd o ran rhywedd (21.5%) ⁵⁷ .
Ymgysylltiad a hyder academiaidd	Roedd lefelau myfyrwyr Traws a GNC mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn sylweddol is na'u cyfoedion o ran ymgysylltiad a hyder academiaidd ⁵⁵ . Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol yn ymgysylltu llai yn yr ysgol, yn llai brwdfrydig yn academiaidd, ac yn llai tebygol o deimlo bod gan oedolion yn yr ysgol ddisgwyliadau uchel ohonynt o'u cymharu â'u cyfoedion cis ³⁶ .
Addysg Gorfforol / cymryd rhan mewn chwaraeon	Roedd myfyrwyr traws yn yr ysgol uwchradd yn llai tebygol na'u cyfoedion o gymryd rhan mewn dosbarth Addysg Gorfforol neu weithgaredd chwaraeon ^{36,41,73,76} . Canfu astudiaeth yn Unol Daleithiau America mai dim ond 8.3% o fyfyrwyr heterorywiol cisryweddol oedd yn osgoi dosbarthiadau Addysg Gorfforol, o'i gymharu â 42.2% o fyfyrwyr LDHTC+ a 58.3% o fyfyrwyr sy'n ystyried eu hunain yn draws ac yn perthyn i leiafrif rhywiol ³⁶ . Canfu astudiaeth arall yn Unol Daleithiau America fod 65.3% (95% CI: 60.7–69.9, $p < .05$) ¹⁸ o fyfyrwyr traws heb chwarae ar dîm chwaraeon, o'i gymharu â 40.2% (95% CI: 39.7–40.8, $p < .05$) o'u cyfoedion cisryweddol ⁷³ .
Disgyblaeth	O'i gymharu â'u cyfoedion, roedd myfyrwyr uwchradd traws yn cael mwy o gamau disgyblu yn yr ysgol ⁸⁸ , bron ddwywaith yn fwy tebygol o golli'r ysgol oherwydd eu bod wedi cael eu gwahardd ³⁸ , ac yn cael mwy o gyswllt â'r system cyfiawnder ieuenctid oherwydd disgyblaeth yn yr ysgol ⁸⁸ . Mewn dwy astudiaeth ansoddol sy'n defnyddio data cyfweiliadau, wedi'u lleoli yn y DU (sgôr MMAT=5/5, n=42) ¹⁶ a Chanada (sgôr MMAT=5/5, n=60) ¹² dywedodd myfyrwyr traws eu bod yn

¹⁸Roedd yr holl AORs ar gyfer yr astudiaeth hon yn rheoli 'rhyw, gradd, ethnigrwydd, hil, BMI, a chwsg'.⁷³

Canlyniad**Deilliannau addysg i fyfyrwyr traws**

cael eu hystyried yn 'godwyr twrw' am eirioli dros eu hawliau a herio polisïau ac arferion cisnormadol.

Ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau addysg

Canfuwyd sawl ffactor oedd yn effeithio ar ddeilliannau sy'n gysylltiedig ag addysg i fyfyrwyr traws, fel y dangosir yn Nhabl 6. Roedd absenoldeb athrawon cefnogol yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o adael yr ysgol⁶¹, perfformiad academaidd salach^{61,87}, ac ymgysylltu^{61,67}. Roedd profi erledigaeth gan gyfoedion yn gysylltiedig â throsglwyddo ysgolion^{56,65}, llai o debygolrwydd o fynd ar drywydd addysg ôl-uwchradd³⁹, perfformiad academaidd salach³⁹, a mwy o debygolrwydd o gael eu disgyblu yn yr ysgol³⁹. Roedd diffyg amgylchedd cefnogol a diogel yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o golli ysgol a pherfformiad academaidd salach³⁶. Roedd absenoldeb cyd-ddisgyblion cefnogol yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o drosglwyddo ysgolion a cholli dosbarthiadau⁶¹.

Tabl 6: Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau addysg i fyfyrwyr traws

Canlyniad	Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau addysg i fyfyrwyr traws
Gohirio addysg	- Canfu astudiaeth yn Awstralia fod myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd heb athrawon sy'n cefnogi amrywiaeth o ran rhywedd yn fwy tebygol o adael yr ysgol (22%) o'i gymharu â'r rheini ag athrawon oedd yn cadarnhau hunaniaethau traws (6%)⁶¹. - Roedd bron i draean (31.4%) o'r myfyrwyr LHDTTC+ yn ystyried rhoi'r gorau iddi yn dweud mai 'polisiâu ac arferion yr ysgol o ran rhywedd' oedd y rheswm³⁹.
Trosglwyddo ysgolion	- Dywedodd plant traws mewn ysgolion cynradd⁵⁶ ac uwchradd eu bod wedi gadael yr ysgol oherwydd erledigaeth gan gyfoedion^{56,65}. - Canfu astudiaeth yn Awstralia fod myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd heb gyd-fyfyrwyr cefnogol yn fwy tebygol o newid ysgolion (27%) o'i gymharu â'r rhai â chyd-fyfyrwyr cefnogol (7%)⁶¹.
Bwriadau o ran addysg ôl-uwchradd	Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd a gafodd eu bwllo fwy oherwydd eu mynegiant rhywedd ddwywaith yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gynlluniau ar gyfer addysg ôl-uwchradd³⁹.
Presenoldeb	- Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol a oedd yn teimlo'n anniogel ac nad oeddent yn cael cymorth gan yr ysgol yn fwy tebygol o golli'r ysgol³⁶. - Canfu astudiaeth yn Awstralia fod myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd heb gyd-fyfyrwyr cefnogol dros ddwywaith yn fwy tebygol o golli dosbarthiadau o'u cymharu â'r rhai sydd â chyd-fyfyrwyr cefnogol (47% a 22% yn y drefn honno)⁶¹.
Cyrhaeddiad academaidd	- Roedd perfformiad academaidd myfyrwyr ysgol uwchradd a oedd yn profi mwy o fwlio oherwydd mynegiant rhywedd yn waeth na'r rhai a gafodd eu bwllo yn llai aml (2.76 cyfartaledd GPA o'i gymharu â 3.17 cyfartaledd GPA)³⁹. - Canfu astudiaeth feintiol ar sail Seland Newydd sy'n defnyddio data'r arolwg (sgôr MMAT=5/5, n= 8,500)⁸⁷ fod myfyrwyr ysgolion uwchradd o rywedd lleiafrifol sydd â disgwyliadau isel gan athrawon yn llai tebygol o gyflawni perfformiad academaidd uchel o'i gymharu â'r rhai heb

Canlyniad	Ffactorau sy'n effeithio ar ddeilliannau addysg i fyfyrwyr traws
	ddisgwyliadau isel gan athrawon (2.76 o GPA cyfartalog o'i gymharu â 3.17 o GPA cyfartalog)⁸⁷. – Roedd perfformiad academiaidd myfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd nad oedd ganddynt athrawon a oedd yn cefnogi amrywiaeth o ran rhywedd yn waeth⁶¹. – Roedd myfyrwyr uwchradd o rywedd lleiafrifol a deimlai eu bod yn perthyn i'r ysgol yn fwy tebygol o adrodd am gyflawniad academiaidd uchel (87%) o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol (69.5%)⁸⁷. – Dywedodd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol a oedd yn teimlo bod cefnogaeth a diogelwch yn yr ysgol yn gwella eu perfformiad academiaidd³⁶.
Ymgysylltiad a hyder academiaidd	– Canfu astudiaeth dulliau cymysg sy'n defnyddio data arolygon a chyfweliadau o Awstralia⁶¹ yn ogystal ag astudiaeth feintiol sy'n defnyddio data arolwg o Awstralia (sgôr MMAT=5/5, n=51)⁶⁷ fod gan fyfyrwyr uwchradd traws ac amrywiol o ran rhywedd heb athrawon sy'n cefnogi amrywiaeth o ran rhywedd lai o ymgysylltiad a hyder academiaidd^{61,67}. – Dywedodd myfyrwyr ysgol uwchradd trawsryweddol a oedd yn teimlo bod cefnogaeth a diogelwch yr ysgol yn eu galluogi i ymgysylltu mwy â'r ysgol³⁶.
Disgyblaeth	– Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd a brofodd fwy o fwlio oherwydd eu mynegiant rhywedd yn fwy tebygol o wynebu camau disgyblu yn yr ysgol³⁹. Hefyd, canfu'r astudiaeth hon o Unol Daleithiau America fod myfyrwyr LHDTC+ hefyd yn cael eu disgyblu am weithgareddau nad oedd myfyrwyr nad oedden nhw'n LHDTC+, a bod disgyblaeth yn aml yn deillio'n uniongyrchol o'u hunaniaeth o ran pobl LHDTC+³⁹.

Anghenion addysg

Soniodd myfyrwyr traws am nifer o anghenion sy'n gysylltiedig ag addysg a fyddai, petaent yn cael sylw, yn gwella eu profiad addysgol, fel y dangosir yn Nhabl 7. Roedd yr anghenion hyn yn cynnwys cwricwlwm ysgol gyfan mwy cynhwysol a chynrychioladol^{66,70,78,81,82,91-93} ac yn enwedig yng nghwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)^{39,56,61,91,94-96}, a nodwyd yn gyson gan fyfyrwyr traws fel angen heb ei ddiwallu. Nododd myfyrwyr traws hefyd yr angen am well dealltwriaeth o amrywiaeth o ran rhywedd a hunaniaethau traws gan staff yr ysgol, llawer ohonynt yr adroddwyd nad oeddent yn gwybod digon am y pwnc^{55,70,78,91-93}. Nododd myfyrwyr traws fod diffyg dealltwriaeth staff o amrywiaeth o ran rhywedd a phobl draws, ynghyd ag absenoldeb cwricwla traws-gynhwysol, yn aml yn golygu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan orfod addysgu'r cyfrifoldeb o addysgu eu cyfoedion a'u hathrawon^{55,66,70,78,81,82,91-93}. Ar ben hynny, tynnodd myfyrwyr traws sylw at yr angen am lai o wahanu rhwng y rhywiau yn ystod gweithgareddau ysgol, gan gyfeirio at yr arfer diangen o rannu myfyrwyr yn grwpiau o fechgyn a merched yn ystod addysg gorfforol^{61,84}, gwasanaethau ysgol⁹¹, ac yn ystod gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth^{61,78}.

Tabl 7: Anghenion addysg myfyrwyr traws

Angen	Anghenion addysg myfyrwyr traws
Cwricwlwm traws-gynhwysol	Dywedodd myfyrwyr trawsryweddol ysgolion cynradd^{70,81} ac uwchradd^{66,78,81,82,91–93} nad oeddent yn cael llawer o addysg am amrywiaeth o ran rhywedd a phobl drawsryweddol na chynrychiolaeth ohonynt yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Canfu astudiaeth ansoddol yn y DU sy'n defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=5/5, n=7)⁹³ fod cwricwla a oedd yn cynnwys elfennau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o ran rhywedd yn cael eu beirniadu am hepgor hunaniaethau anneuaidd⁹³. Canfu astudiaeth ansoddol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=5/5, n=30)⁵⁴ fod myfyrwyr wedi dod ar draws cynrychiolaeth gyfyngedig a negyddol ar y cyfan o bobl draws, ac wedi lleisio eu bod yn stereoteipiau o bobl draws⁵⁴. Canfu astudiaeth ansoddol arall yn Unol Daleithiau America sy'n seiliedig ar ddata arsylwadol (sgôr MMAT=5/5, n=31)⁹⁷ fod myfyrwyr traws yn gwerthfawrogi cael eu hamlygu i ddeunydd yn eu dosbarthiadau a oedd yn cynrychioli ac yn taro tant â'u hunaniaethau traws⁹⁷. Roedd diffyg cynrychiolaeth draws yn y cwricwlwm yn aml yn arwain at fyfyrwyr traws yn cael eu llethu gan orfod addysgu eu cyfoedion am eu hunaniaethau^{66,78,81,82}.
Addysg cydberthynas a rhywioldeb draws-gynhwysol (ACRh)	Nododd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd^{56,96} ac uwchradd^{39,61,91,94,95,98} nad oedd cynrychiolaeth draws ac amrywiol o ran rhywedd yn rhan o'u cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh). Arweiniodd y diffyg cynrychiolaeth hwn at fwelch yn y wybodaeth am ACRh sy'n berthnasol i'w hunaniaethau a'u hamgylchiadau o ran rhywedd^{91,94,95,99}, a hyd yn oed mwy o deimladau o ddysfforia ac ynysu cymdeithasol oherwydd natur 'cisnormadol' trafodaeth y cwricwlwm am y glasoed a chyrrff^{56,96}.
Mwy o ymwybyddiaeth/hyfforddiant traws i staff ysgolion	Pwysleisiodd myfyrwyr Trawsryweddol a GNC mewn ysgolion cynradd^{55,70} ac uwchradd^{55,78,91–93} yr angen am fwy o addysg a dealltwriaeth o amrywiaeth o ran rhywedd ymysg staff ysgolion. Roedd diffyg dealltwriaeth staff yn aml yn golygu bod myfyrwyr traws yn gyfrifol am addysgu athrawon a staff am amrywiaeth o ran rhywedd^{55,70,78,91,93}. Dywedodd staff ysgolion nad oedd ganddynt wybodaeth am hunaniaethau anneuaidd, gan roi'r baich

Angen	Anghenion addysg myfyrwyr traws
	addysg ar fyfyrwyr anneauaid i roi gwybod i staff am yr hunaniaethau hyn a'u profiadau go iawn ^{78,92,93} .
Llai o wahanu rhwng y rhywiau yn yr ysgol	Roedd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion uwchradd yn dadlau dros lai o wahanu rhwng y rhywiau, yn enwedig y ffaith eu bod yn cael eu neilltuo i grwpiau sy'n cael eu gwahanu gan y rhywiau yn ystod dosbarthiadau ⁶¹ . Yn aml, cyfeiriwyd at ddosbarthiadau Addysg Gorfforol fel un o'r amgylcheddau sy'n cael ei wahanu fwyaf gan y rhywiau ^{61,84} ; roedd achosion eraill o wahanu ar sail rhyw a oedd yn cael eu hystyried yn rhai diangen yn cynnwys côr ¹⁰¹ , gwasanaethau ysgol ⁹¹ , sefyll mewn rhes cyn mynd i mewn i'r dosbarth, a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ^{61,78} . Roedd cael cyfarwyddyd i wahanu i grwpiau o fechgyn a merched yn achosi straen i fyfyrwyr traws deuaidd ac anneauaid ^{61,78,84,91} .

Effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol

Un o nodau'r adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth oedd archwilio effaith dulliau polisi ac ymarfer trawsnewid cymdeithasol ar ganlyniadau myfyrwyr traws a'u cyfoedion mewn lleoliadau addysg gynradd ac uwchradd, fel yr adroddwyd yn y llenyddiaeth.

Y ddau gwestiwn olaf yr oedd yr adolygiad yn ceisio eu hateb oedd: 3) Beth yw effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg ar **blant a phobl ifanc traws** o ran eu llesiant a'u canlyniadau addysgol? A 4) Beth yw effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg ar **gyfoedion** plant a phobl ifanc traws?

Effaith polisïau ac arferion yr ysgol ar fyfyrwyr traws

Canfu'r astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn fod dulliau ysgolion o bontio plant a phobl ifanc traws yn gymdeithasol yn amrywio o wahanol raddau o ddulliau cadarnhaol i rai nad ydynt yn gadarnhaol. Roedd y prif ddulliau a nodwyd yn ymwneud â chyfleoedd plant a phobl ifanc traws i ddefnyddio'r enw a'r rhagenwau o'u dewis yn yr ysgol, gwisgo dillad neu wisgoedd sy'n cyd-fynd â'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain, cael mynediad at gyfleusterau sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain, a chymryd rhan mewn chwaraeon ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a chwricwla cysylltiedig eraill sy'n cyd-fynd â'r rhywedd maent wedi'i ddynodi iddynt eu hunain. Prin yw'r dystiolaeth sy'n archwilio effaith polisïau ac arferion penodol yr ysgol sy'n ymwneud â thrawsnewid cymdeithasol ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws. Fodd bynnag, mae sylfaen dystiolaeth ehangach yn nodi ffactorau ysgol sy'n gysylltiedig â llesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws, y mae rhai ohonynt yn ymwneud ag agweddau ysgolion tuag at drawsnewid cymdeithasol.

Hinsawdd gyffredinol yr ysgol a chymorth i ysgolion

Mae dystiolaeth o astudiaethau mewn ysgolion yn awgrymu y gallai 'hinsawdd' neu amgylchedd cyffredinol yr ysgol chwarae rhan yn llesiant a chanlyniadau addysgol

plant a phobl ifanc traws, gyda rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu nodi yn y llenyddiaeth fel rhai sy'n ymwneud yn benodol â dulliau ysgolion o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol.

Nododd yr adolygiad sawl astudiaeth yn edrych ar y berthynas rhwng hinsawdd neu amgylchedd cyffredinol yr ysgol ac amrywiol ganlyniadau llesiant ac addysgol i blant a phobl ifanc traws. Er enghraifft, mae Greenspan et al.¹⁰² (Sgôr MMAT=4/5) wedi cynnal arolwg meintiol archwiliadol i nodi ffactorau amddiffynnol sy'n seiliedig ar yr ysgol a'r gymuned yn llesiant seicolegol 31 o bobl ifanc awtistig trawsryweddol ac amrywiol o ran rhywedd, 13–17 oed. Fel rhan o hyn, defnyddiwyd is-raddfa o'r Holiadur Gwytnwch Pobl Ifanc i archwilio'r berthynas rhwng 'amgylchedd ysgol cefnogol' a gwahanol fesurau llesiant. Canfu'r astudiaeth fod amgylchedd ysgol cefnogol yn rhagfynegydd sylweddol o foddhad bywyd ymysg pobl ifanc awtistig trawsryweddol ac amrywiol o ran rhywedd, gyda lefelau uwch o gefnogaeth yn yr ysgol yn rhagfynegi mwy o foddhad mewn bywyd, yn ychwanegol at yr holl ffactorau amddiffynnol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y model.

Arsylwyd ar ganfyddiadau tebyg ar draws astudiaethau yn edrych ar y berthynas rhwng cymorth ysgol a llesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws. Er enghraifft, defnyddiodd astudiaeth a oedd yn defnyddio data yn yr ysgol uwchradd o Arolwg Plant Iach California rhwng 2017-19 (sgôr MMAT=Amh, n=800,000)³⁶, bedair graddfa aml-eitem ar draws y maes cymorth ysgol (sy'n mesur profiadau myfyrwyr o berthnasoedd gofalu gydag oedolion yn eu hysgol, yn cael eu dal eu hystyried fel rhai a chanddynt ddisgwyliadau uchel, yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol a'r gymuned ysgol, ac ymdrechion yr ysgol i gefnogi cyfranogiad rhieni), yn ogystal â pharth diogelwch ysgol sy'n cynnwys pedair eitem ie-na, a chyfres o fesurau sy'n ymwneud â llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr trawsryweddol. Canfu'r astudiaeth wahaniaethau mawr rhwng myfyrwyr trawsryweddol a rhai nad ydynt yn drawsryweddol mewn data o bob un o'r graddfeydd sy'n mesur presenoldeb cymorth ysgol, a hyd yn oed gwahaniaethau mwy ym mhob mesur o ddiogelwch ysgol. O ran llesiant a deilliannau addysgol, roedd myfyrwyr trawsryweddol yn llawer mwy tebygol o adrodd am dristwch cronig a meddwl am hunanladdiad, lefelau is o ymgysylltu ag ysgolion a chreu cysylltiadau ynddynt, a lefelau is o ran perfformiad academaidd. Canfyddiad allweddol arall oedd bod canfyddiadau a phrofiadau myfyrwyr o gymorth ysgol a diogelwch ysgol yn cyfrif am gyfran fawr o'r gwahaniaethau mewn llesiant a deilliannau addysgol rhwng myfyrwyr trawsryweddol a rhai nad ydynt yn drawsryweddol, gan gynnwys 50% o'r gwahaniaeth mewn syniadau am hunanladdiad, 56% o'r gwahaniaeth mewn cymhelliant academaidd, a 90% o'r gwahaniaeth o ran cysylltedd mewn ysgolion.

Er bod yr astudiaethau hyn yn edrych ar rôl ffactorau cyffredinol sy'n seiliedig ar hinsawdd mewn ysgolion o ran llesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc

traws, mae nifer llai o astudiaethau'n archwilio ffactorau sy'n seiliedig ar hinsawdd mewn ysgolion sy'n ymwneud yn benodol â chefnogi plant a phobl ifanc traws.

Er enghraifft, cynhaliodd Durwood et al.⁶³ astudiaeth seiliedig ar arolwg gyda rhieni 265 o blant trawsryweddol rhwng 3 a 15 oed yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=4/5)) i archwilio'r berthynas rhwng cymorth a gofnodwyd gan rieni gan deulu, ysgol, cyfoedion, a'r wladwriaeth sy'n gysylltiedig â rhywedd, a symptomau gorbryder ac iselder a gofnodwyd gan rieni ymhlith plant trawsryweddol (a aseswyd gan ddefnyddio Graddfa HIIH PROMIS ar gyfer Gorbryder ac Iselder). Aseswyd cymorth ysgol sy'n gysylltiedig â rhywedd yn benodol drwy ofyn i rieni adrodd sut roedd athro/athrawon eu plentyn yn derbyn rhywedd/rhyw y plentyn, pa mor fodlon oeddent yn gyffredinol â thriniaeth ysgol y plentyn o hunaniaeth/mynegiant rhywedd eu plentyn, ynghyd â rhestr wirio 11 eitem yn nodi a oedd yr ysgol yn darparu amryw o gymorth sy'n gysylltiedig â hunaniaeth y plentyn o ran rhywedd (e.e. polisi gwrth-fwlio sy'n sôn yn benodol am hunaniaeth/mynegiant o ran rhywedd, dogfennau ysgol sy'n cyd-fynd â hunaniaeth rhywedd y plentyn, defnyddio cyfleusterau toiled o'u dewis, cymryd rhan mewn chwaraeon sy'n cyd-fynd â'i hunaniaeth o ran rhywedd, ac ati). Canfu'r astudiaeth fod lefelau uwch o gymorth ysgol sy'n gysylltiedig â rhywedd a gofnodwyd gan rieni yn gysylltiedig â lefelau is o symptomau gorbryder ac iselder a gofnodwyd gan rieni. Roedd cymorth ysgol a gofnodwyd gan rieni ar gyfer hunaniaeth rhywedd person ifanc yn rhwystyr yn y berthynas rhwng erledigaeth sy'n gysylltiedig â rhywedd a symptomau gorbryder ac iselder. Yn benodol, o ran plant â lefelau uchel iawn o gymorth ysgol a gofnodwyd gan rieni ar gyfer eu hunaniaeth o ran rhywedd, nid oedd profiadau o erledigaeth sy'n gysylltiedig â rhywedd yn gysylltiedig â symptomau gorbryder ac iselder, sy'n awgrymu y gallai cymorth ysgol trawsryweddol i bobl ifanc, sy'n gysylltiedig â rhywedd, chwarae rhan hanfodol wrth liniaru effeithiau niweidiol erledigaeth sy'n gysylltiedig â rhywedd.

Yn ôl astudiaeth sy'n seiliedig ar ddata o arolwg o bobl ifanc LGBTIQ+ 14-21 oed yn Awstralia (sgôr MMAT=4/5, n=5,868)⁷¹, roedd cyfranogwyr traws neu amrywiol o ran rhywedd a ddywedodd fod eu sefydliad addysg yn cadarnhau eu hunaniaeth LGBTIQ+ yn adrodd lefelau is o drallod seicolegol a lefelau uwch o hapusrwydd goddrychol. I archwilio'r berthynas hon, datblygodd yr astudiaeth raddfa 'amgylchedd addysgol cadarn' benodol ar gyfer cyfranogwyr traws neu amrywiol o ran rhywedd, a oedd yn cynnwys eitemau yn ymwneud â phrofiadau cyfranogwyr o gysur a diogelwch yn lleoliad yr ysgol. Fel rhan o hyn, gofynnwyd i gyfranogwyr, 'Yn ystod y 12 mis diwethaf yn eich sefydliad addysg, a ydych wedi teimlo'n ddiogel y gallech chi...' ac fe'u gwahoddiwyd i ddewis o eitemau gan gynnwys 'Defnyddio'r ystafell ymolchi/ystafelloedd newid sy'n cyd-fynd â'm hunaniaeth o ran rhywedd', 'Defnyddio fy enw neu ragenwau o'm dewis' a 'Gwisgo dillad sy'n cyd-fynd â'm hunaniaeth o ran rhywedd', ynghyd â dwy eitem a gafodd eu cynnwys hefyd yn y raddfa amgylchedd addysgol cadarnhaol ar gyfer cyfranogwyr cisryweddol ('Nodi'n agored eich bod yn

LGBTIQA+ a 'Dathlu diwrnod "Wear it Purple Day", IDAHOBIT, neu Ddiwrnod Gwelededd Trawsryweddol, neu ddiwrnod arall o arwyddocâd i bobl LGBTIQA+), ynghyd â'r opsiwn i ddewis 'Dim un o'r uchod'. Canfu'r astudiaeth fod amgylchedd addysgol cadarnhaol i gyfranogwyr traws neu amrywiol o ran rhywedd (wedi'i asesu gan ddefnyddio'r raddfa a ddisgrifir uchod) yn gysylltiedig â lefelau uwch o hapusrwydd ($\beta = 0.15$, CI = 0.11-0.19, $p < 0.001$) a lefelau is o ofid seicolegol ($\beta = -0.91$, CI = -1.19-0.63, $p < 0.001$).

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Addysg Hoyw, Lesbïaidd a Syth (GLSEN) ar ganlyniadau Arolwg Hinsawdd Ysgolion Cenedlaethol 2021 o 22,298 o fyfyrwyr LHDTC+ 13-21 oed yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=Amh)³⁹ yn cofnodi pa mor gyffredin yw dangosyddion 'hinsawdd ysgol elyniaethus' (rhai, ond nid pob un, yn ymwneud yn benodol â hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd) ac yn archwilio'r berthynas rhwng y dangosyddion hyn ac ystod o elfennau llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr LHDTC+. Mae dangosyddion 'hinsawdd ysgol elyniaethus', sy'n ymwneud yn benodol â hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd, yn cynnwys cyfranogwyr yn nodi:

- eu bod yn teimlo'n anniogel yn yr ysgol oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd;
- eu bod yn clywed sylwadau negyddol am fynegiant rhywedd a sylwadau negyddol yn benodol am bobl drawsryweddol;
- bod ganddynt brofiadau o aflonyddu geiriol neu ymosodiad corfforol ar sail eu hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd;
- bod ganddynt brofiadau o 'bolisïau ac arferion gwahaniaethol' sy'n gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd (gan gynnwys cael eu hatal rhag defnyddio eu henw neu ragenwau o'u dewis, defnyddio ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd loceri sy'n cyd-fynd â'u rhywedd, gwisgo dillad sy'n cael eu hystyried yn 'amhriodol' ar sail rhywedd a chwarae ar dîm chwaraeon sy'n gyson â'u rhywedd).

Canfu'r adroddiad fod myfyrwyr trawsryweddol ac anneauidd yn gyson fwy tebygol na myfyrwyr LHDC+ cisryweddol i roi gwybod am a) dangosyddion sy'n gysylltiedig â rhywedd neu fynegiant o hinsawdd ysgol elyniaethus a b) canlyniadau addysgol gwaeth. Roedd myfyrwyr trawsryweddol ac anneauidd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n anniogel yn yr ysgol oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd, profi erledigaeth wyneb yn wyneb sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, ac wynebu polisïau ac arferion gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o adrodd am gyfraddau absenoldeb uwch, cyfraddau uwch o wynebu camau disgyblu, dyheadau addysgol is, a lefelau is o deimlo'n perthyn i'r ysgol. Er

nad oedd yr adroddiad yn archwilio'n benodol y berthynas rhwng hunaniaeth rhywedd na dangosyddion sy'n gysylltiedig â mynegiant o ran hinsawdd ysgol elyniaethus a llesiant a deilliannau addysgol ar gyfer myfyrwyr trawsryweddol ac anneuaidd, archwiliwyd y perthnasoedd hyn ar gyfer y boblogaeth ehangach o fyfyrwyr LHDTCT+. Canfu'r adroddiad fod hunaniaeth o ran rhywedd neu ddangosyddion sy'n gysylltiedig â mynegiant rhywedd mewn hinsawdd ysgol elyniaethus yn gysylltiedig ag ystod o elfennau llesiant a deilliannau addysgol a nodwyd gan fyfyrwyr LHDTCT+, gan gynnwys dyheadau addysgol is, absenoldeb uwch, graddau is, cyfraddau uwch o gamau disgyblu, hunan-barch is, lefelau uwch o iselder, a mwy o syniadau hunanladdol. Yn fwy penodol, soniodd myfyrwyr LHDTCT+ a ddywedodd eu bod yn profi polisïau ac arferion 'gwrthwahananiaethol' sy'n gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd yn yr ysgol (fel cyfyngiadau ar ddefnyddio enwau a rhagenwau o ddewis, mynediad at gyfleusterau, a mynegiant o ran rhywedd) am lefelau is o hunan-barch a lefelau uwch o iselder.

Roedd astudiaethau ansoddol a gynhwyswyd yn yr adolygiad hefyd yn adrodd am ganfyddiadau tebyg yn ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd a nodweddion sy'n gysylltiedig â mynegiant rhywedd mewn hinsawdd ysgolion. Er enghraifft, mewn astudiaeth ansoddol yn Unol Daleithiau America sy'n defnyddio data cyfweiliadau (sgôr MMAT=4/5, n=10)⁸³ disgrifiodd cyfranogwyr trawsryweddol amrywiaeth o brofiadau negyddol yn yr ysgol yn gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd. Roedd y rhain yn cynnwys aelodau o staff yn cosbi myfyrwyr nad oeddent yn cydymffurfio â'r ffiniau a'r mynegiannau rhywedd disgwylidig, a gyfrannodd at eu canfyddiadau o amgylchedd dysgu anniogel gyda mesurau amddiffyn annigonol yn erbyn gwahaniaethu ac aflonyddu. Gwelwyd canfyddiadau tebyg mewn astudiaethau ansoddol o'r DU ac Unol Daleithiau America, lle'r oedd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dweud eu bod wedi gadael yr ysgol oherwydd amgylcheddau anniogel ac anghefnogol^{70,78} lle roeddent yn wynebu aflonyddwch, bwllo neu drais⁷⁰. Yn fwy cyffredinol, mewn astudiaethau ansoddol o Unol Daleithiau America, Awstralia, a'r DU, roedd myfyrwyr trawsryweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn myfyrio ar bwysigrwydd hinsawdd ysgol a oedd yn cefnogi mynegiant o amrywiaeth o ran rhywedd fel ffactor allweddol yn eu lles a'u cymhelliant addysgol^{61,65,70,78-80}. Mewn astudiaethau ansoddol gyda phlant a phobl ifanc traws, cyfeiriodd cyfranogwyr hefyd yn benodol at ddulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol fel agweddau pwysig ar hinsawdd ysgol gefnogol, gan gynnwys caniatáu addasu enwau a rhywedd yng nghronfeydd data ysgolion a defnyddio enwau a rhagenwau o ddewis^{55,61,80}.

Polisïau ysgol gyda darpariaethau penodol ar gyfer cefnogi myfyrwyr traws

Mae sawl astudiaeth wedi archwilio'r berthynas rhwng polisïau ysgolion sy'n cynnwys darpariaethau neu fesurau amddiffyn penodol i fyfyrwyr traws a llesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws. Er bod gwybodaeth fanwl am y polisïau hyn yn gyfyngedig ar y cyfan, gwelwyd weithiau eu bod yn ymwneud yn benodol â dulliau ysgolion o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol.

Cynhaliodd Day et al.³³ astudiaeth gan ddefnyddio Arolwg Plant Iach California 2013-2015 (n=113,148) ynghyd â phrif adroddiadau am bolisïau ysgolion o Broffiliau Iechyd Ysgolion California yn 2014, i archwilio effeithiau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (SOGI) ar bolisïau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol (sgôr MMAT=4/5). Aseswyd polisïau sy'n canolbwyntio ar SOGI yn seiliedig ar y prif adroddiadau ar bum polisi: gwahardd aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd dybiedig neu wirioneddol, darparu clybiau dan arweiniad myfyrwyr sy'n canolbwyntio ar gynnwys pobl LHDT, darparu mannau sy'n ddiogel o ran hunaniaeth ar gyfer pobl ifanc LHDT i gael gafael ar gymorth gan staff ysgol, datblygiad proffesiynol staff sy'n ymwneud ag amgylcheddau ysgol sy'n cynnwys pobl LHDT, a mynediad at wasanaethau allanol a chymorth i bobl ifanc LHDT. Canfu'r astudiaeth fod gan bobl ifanc trawsryweddol yn adrodd eu graddau uwch eu hunain mewn ysgolion gyda mwy o bolisïau sy'n canolbwyntio ar SOGI, a bod nifer y polisïau o'r fath yn gysylltiedig â lefelau is o driwantiaeth ar draws pob myfyriwr, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Addysg Hoyw, Lesbiaidd a Syth (GLSEN) ar ganlyniadau Arolwg Hinsawdd Ysgolion Cenedlaethol 2021 o 22,298 o fyfyrwyr LHDT+ 13-21 oed yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=Amh)³⁹, fod myfyrwyr trawsrywiol neu anneauidd a ddywedodd fod gan eu hysgol bolisi swyddogol neu ganllawiau anneauidd yn benodol am gefnogi myfyrwyr trawsryweddol neu anneauidd yn adrodd lefelau uwch o deimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn absennol oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus. Gofynnwyd cwestiynau dilynol i'r cyfranogwyr a ddywedodd fod gan eu hysgol bolisïau trawsryweddol/anneuaidd penodol i nodi'r darpariaethau sy'n ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd a oedd yn cynnwys y rhain. Roedd y darpariaethau mwyaf cyffredin yn ymwneud â dulliau ysgolion o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol, gan gynnwys darpariaethau ar ddefnydd myfyrwyr o'r enw/rhagenwau o ddewis, mynediad i ystafelloedd ymolchi sy'n cyfateb i'w hunaniaeth o ran rhywedd, y gallu i newid cofnodion swyddogol i adlewyrchu newid enw neu rywedd, a'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd.

Roedd adroddiad GLSEN a drafodwyd uchod yn un o nifer o astudiaethau a oedd yn archwilio rôl polisïau gwrth-fwlio cynhwysfawr (h.y. y rhai sydd â mesurau amddiffyn

penodol rhag erledigaeth yn seiliedig ar hunaniaeth neu fynegiant rhywedd) mewn llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr trawsrywiol. Canfu'r adroddiad fod myfyrwyr trawsryweddol neu anneuaidd a ddywedodd fod gan eu hysgol bolisi gwrth-fwlio cynhwysfawr (fel nodi'n benodol amddiffyniad rhag erledigaeth yn seiliedig ar hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd) yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n anniogel oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd, yn colli llai o ddiwrnodau ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel, yn llai tebygol o glywed sylwadau negyddol am bobl drawsryweddol, wedi profi llai o aflonyddu ac ymosodiadau ar sail eu hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, ac wedi teimlo lefelau uwch o berthyn i'r ysgol.

Mewn astudiaeth feintiol ar y berthynas rhwng polisïau gwrth-fwlio ardaloedd ysgolion a phrofiadau myfyrwyr LHDT o ddiogelwch ac erledigaeth yn Unol Daleithiau America (7,040 o fyfyrwyr LHDT o 2,952 o ardaloedd ysgolion unigryw), canfu Kull et al.¹⁰³ fod myfyrwyr LHDT mewn ardaloedd â pholisïau gwrth-fwlio sy'n nodi bod mesurau amddiffyn penodol ar gyfer myfyrwyr yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol gwirioneddol neu ganfyddedig, hunaniaeth o ran rhywedd a/neu fynegiant rhywedd yn teimlo'n llawer mwy diogel, eu bod yn profi llai o erledigaeth (e.e. aflonyddu ac ymosod yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol a mynegiant rhywedd), a llai o ymddygiadau ymosodol cymdeithasol o'i gymharu â myfyrwyr mewn ardaloedd â pholisïau generig neu ddim polisi/polisi anhysbys (sgôr MMAT=5/5).

Mewn astudiaeth feintiol sy'n seiliedig ar arolwg gyda 116 o benaethiaid ysgolion gradd ganol yn Unol Daleithiau America, canfu Boyland, Kirkeby, a Boyland¹⁰⁴ (sgôr MMAT=4/5) fod lefelau uwch o gytundeb gan benaethiaid ar weithredu polisïau gwrth-fwlio gyda mesurau amddiffyn penodol ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn gysylltiedig â lefelau is o fwlio neu wahaniaethu tuag at fyfyrwyr LHDT, yn enwedig myfyrwyr sy'n drawsrywiol ac yn amrywiol o ran rhywedd.

I'r gwrthwyneb, cynhaliodd De Pedro et al.¹⁰⁵ ddadansoddiad eilaidd o Arolwg Plant Iach California (CHKS) 2013-2015, a oedd yn cynnwys asesiadau ar draws y wladwriaeth o hinsawdd ysgolion cynradd ac uwchradd yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=4/5) Roedd y dadansoddiad yn cynnwys 611 o fyfyrwyr ysgol ganol ac uwchradd. Gofynnwyd i fyfyrwyr a oedd gan eu hysgol bolisi yn gwahardd aflonyddu ar sail cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd. Canfu De Pedro et al. nad oedd presenoldeb polisïau gwrth-fwlio yn rhagfynegydd sylweddol o ddiogelwch myfyrwyr LHDT, gan dynnu sylw at rwystrau posibl wrth weithredu polisïau. Awgrymodd yr awduron mai un maes pwysig ar gyfer ymchwil yn y dyfodol fyddai asesu ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr o bolisïau gwrth-fwlio a gwerthuso'r prosesau ar gyfer gweithredu'r polisïau hyn.

Rôl staff 'cefnogol' yr ysgol

Mae astudiaethau mewn ysgolion yn dangos bod presenoldeb staff ysgol sy'n cael eu hystyried gan blant a phobl ifanc traws yn 'gefnogol' yn gysylltiedig ag amrywiaeth o elfennau llesiant a deilliannau addysgol, gyda graddau amrywiol o berthnasedd i ddulliau staff o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol yn benodol.

Defnyddiodd un astudiaeth, sy'n defnyddio data o Arolwg Plant Iach Califfornia 2013-2015 o 634,978 o fyfyrwyr 10-17 oed yn ysgolion Califfornia (sgôr MMAT=4/5)⁶⁰, raddfa cymorth wedi'i dilysu i oedolion mewn ysgolion (sy'n seiliedig ar chwe eitem wedi'u cofnodi eu hunain) i archwilio'r berthynas rhwng cymorth i oedolion mewn ysgolion a defnyddio sylweddau yn y 30 diwrnod diwethaf ymysg pobl ifanc drawsryweddol. Canfu'r astudiaeth fod cymorth i oedolion mewn ysgolion yn gysylltiedig â llai o siawns o ddefnyddio sylweddau yn yr ysgol yn y 30 diwrnod diwethaf o ran mariwana (22%), sigaréts (29%) ac mewnanadlyddion (14%) ymysg pobl ifanc trawsryweddol, gan reoli profiadau o erledigaeth gan gyfoedion yn yr ysgol, a nodwyd gan yr astudiaeth fel y ffactor risg allweddol ar gyfer defnyddio sylweddau yn yr ysgol.

Mewn astudiaeth dulliau cymysg (sgôr MMAT=4/5)⁶¹ gan ddefnyddio data o arolwg o 189 o fyfyrwyr trawsryweddol ac amrywiol o ran rhywedd rhwng 14 a 25 oed yn Awstralia ac 16 o gyfweiliadau lled-strwythuredig o'r un sampl, nododd cyfranogwyr yr arolwg nad oeddent yn cael unrhyw gefnogaeth gan athrawon lefelau uwch o aflonyddu gan gyfoedion (er enghraifft, dywedodd 63% eu bod wedi profi iaith wahaniaethol gan ffrindiau o'i gymharu â 31% o'r rhai oedd yn cael cefnogaeth gan athrawon) ac roeddent dros bedair gwaith yn fwy tebygol o adael yr ysgol (23% o'i gymharu â'r 5% oedd yn cael cefnogaeth gan athrawon). Canfu'r un astudiaeth fod myfyrwyr trawsryweddol a ddywedodd fod eu hathrawon yn defnyddio enwau a rhagenwau 'amhriodol yn bennaf' i gyfeirio atynt yn cael eu cam-drin mwy gan gyfoedion a bod eu deilliannau addysgol yn waeth o'u cymharu â'r rhai yr oedd eu hathrawon yn defnyddio enwau a rhagenwau 'priodol'. Roeddent yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gallu canolbwyntio yn y dosbarth (54% o'i gymharu â 22%), bod eu marciau'n is (54% o'i gymharu â 26%) neu adael yr ysgol yn gyfan gwbl (22% o'i gymharu â 6%).

Canfu astudiaeth arall, a oedd yn defnyddio data o arolwg ar raddfa fawr gyda sampl gynrychioliadol o fyfyrwyr LHDTTC+ mewn ysgolion canol ac uwchradd yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=Amh)¹⁰⁶ fod presenoldeb staff ysgol yr adroddwyd amdanynt gan gyfranogwyr fel rhai sy'n gefnogol i fyfyrwyr LDHTC+ yn gysylltiedig ag ystod o elfennau llesiant a deilliannau addysgol ar gyfer myfyrwyr traws ac anneauaid yn benodol. Er enghraifft, nododd cyfranogwyr traws ac anneauaid a allai nodi bod mwy o staff yr ysgol yn gefnogol i fyfyrwyr LHDTTC+:

- Lefelau uwch o hunan-barch;
- Lefelau is o iselder;
- Lefelau uwch o deimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol;
- Mwy o ddyheadau i barhau ag addysg y tu hwnt i'r ysgol uwchradd;
- Sgoriau GPA uwch.

Mae canfyddiadau tebyg i'w gweld mewn astudiaeth gan Ullman⁶⁷ (sgôr MMAT=5/5), gan ddefnyddio data o arolwg o 704 o bobl ifanc o Awstralia sy'n cael eu denu at yr un rhyw ac sy'n amrywio o ran rhywedd (rhwng 14 a 18 oed) i archwilio hinsawdd ysgol sy'n gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd fel ffactor straen posibl i fyfyrwyr sy'n ystyried eu bod yn amrywiol o ran rhywedd. Roedd y mesurau yn yr arolwg yn cynnwys eitemau gwreiddiol yn ymchwilio i hinsawdd ysgol sy'n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd, fel is-raddfa tair eitem i asesu canfyddiadau myfyrwyr o agweddau cadarnhaol athrawon ynghylch amrywiaeth mewn hunaniaeth rhywedd a rhywioldeb¹⁹, yn ogystal ag eitem unigol yn gofyn i gyfranogwyr nodi a oedd eu hathrawon 'byth' i 'bob amser' yn gadarnhaol ynghylch hunaniaeth rhywedd neu'n gefnogol i bobl drawsryweddol neu rywedd cwiar'. Datgelodd dadansoddiadau cydberthynol fod agwedd gadarnhaol athrawon at amrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb yn gysylltiedig yn sylweddol ag ystod o fesurau llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr sy'n amrywio o ran rhywedd. Roedd myfyrwyr rhywedd amrywiol a oedd yn adrodd lefelau uwch o weithredu cadarnhaol gan athrawon o ran disgyblion amrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb hefyd yn adrodd lefelau uwch o ran morâl ysgol, perthyn i'r ysgol, hyder wrth ddysgu, cymhelliant, a hunan-gysyniad academaidd, a lefelau is o drallod yn yr ysgol ac aflonyddu gan gyfoedion, gyda chydberthynas gref iawn o ran mesurau llesiant yn yr ysgol. Datgelodd dadansoddiad atchweliad lluosog o ymdeimlad myfyrwyr rhywedd amrywiol o ymgysylltiad â'r ysgol yn benodol bod amrywiad yn lefelau positifrwydd athrawon yr adroddwyd amdanynt yng nghyswllt amrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb yn esbonio cyfran sylweddol o'r amrywiad yn ymdeimlad myfyrwyr o gysylltiad â'r ysgol, uwchlaw'r rhagfynegydd allweddol arall sef diogelwch mewn ysgol.

Un nodwedd benodol o gymorth i fyfyrwyr trawsryweddol a archwiliwyd mewn sawl astudiaeth oedd ymyrraeth gan staff ysgol mewn bwllo neu aflonyddu ar sail hunaniaeth o ran rhywedd. Mewn astudiaethau ansoddol yn benodol, nodwyd weithiau bod hyn yn ymwneud ag agweddau ar ymagwedd staff at drawsnewid

¹⁹ Roedd eitemau'n mesur cytundeb myfyrwyr ar raddfa Likert 9 pwynt gyda'r datganiadau 'Mae fy athrawon yn dweud ei bod yn iawn i bobl fynegi eu rhywedd mewn ffordd gwahanol', 'Yn fy ysgol i, os oedd rhywun yn gwneud hwyl am fy mhen am y ffordd rwy'n mynegi fy rhywedd, byddai'r athrawon yn fy amddiffyn i, ac 'Yn fy ysgol i, mae athrawon yn siarad am atyniad at bobl o'r un rhyw (pynciau lesbaidd, hoyw neu ddeurywiol) mewn ffordd gadarnhaol'.⁶⁷

cymdeithasol (fel cymorth ar gyfer enwau, rhagenwau a mynegiant rhywedd a ddewiswyd gan blant a phobl ifanc traws).

Er enghraifft, archwiliodd adroddiad a oedd yn defnyddio arolwg o 22,298 o fyfyrwyr LHDTTC+ 13-21 oed yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=Amh)³⁹ y berthynas rhwng pa mor aml oedd staff yr ysgol yn ymyrryd mewn sylwadau gwrth-LHDTTC+ yn ôl myfyrwyr, ac effeithiolrwydd ymatebion staff a gofnodwyd gan fyfyrwyr i ddioddefwyr sylwadau gwrth-LHDTTC+, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ganlyniadau addysgol a llesiant. Canfu'r astudiaeth fod myfyrwyr a ddywedodd eu bod yn gweld staff yn ymyrryd mewn sylwadau gwrth-LHDTTC+ yn amlach yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n anniogel yn yr ysgol oherwydd eu hunaniaeth neu fynegiant rhywedd ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn colli ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus. Yn yr un modd, roedd lefelau uwch o'r canfyddiad o effeithiolrwydd mewn ymatebion staff i erledigaeth gwrth-LHDTTC+ yn gysylltiedig â thebygolrwydd is o adrodd am deimlo'n anniogel yn yr ysgol oherwydd hunaniaeth neu fynegiant rhywedd a llai o debygolrwydd o golli ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus.

Mewn nifer o astudiaethau yn y DU ac yn UDA sy'n defnyddio data ansoddol (testun agored) neu gyfweiliadau am brofiadau disgyblion traws yn yr ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd^{55,56,65,75,76}, dywedodd cyfranogwyr nad oedd athrawon yn aml yn rhoi sylw i sylwadau 'trawsffobig' gan fyfyrwyr eraill. Mewn dwy astudiaeth yn y DU, un yn seiliedig ar ddata ansoddol o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda 10 o blant traws a 30 o rieni plant traws rhwng 10 ac 16 oed (oedran cyfartalog 11) (sgôr MMAT=5/5)⁵⁶, a'r llall yn seiliedig ar gyfweiliadau grŵp ffocws gyda phobl ifanc oedd yn adnabod eu hunain fel pobl draws rhwng 14 a 19 oed, rhieni pobl ifanc draws, a staff ysgol a gwaith ieuenctid (sgôr MMAT=5/5)⁷⁵, roedd cyfranogwyr yn adlewyrchu bod athrawon a staff yn llai tebygol o ymyrryd mewn sylwadau trawsffobig amlwg gan gyfoedion a oedd yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth, yn hytrach na rhagfarn fwriadol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr hyn yn benodol at achosion yn ymwneud â defnyddio enwau a rhagenwau o'u dewis.

Dulliau polisi ac ymarfer o ddefnyddio enwau a rhagenwau dewisol myfyrwyr traws

Mae canfyddiadau ar ddulliau ysgolion o ddefnyddio enwau a rhagenwau dewisol myfyrwyr traws yn amlwg ar draws sawl astudiaeth ansoddol, yn ogystal ag mewn un astudiaeth feintiol yn archwilio'n benodol y berthynas rhwng defnyddio enwau a rhagenwau o'u dewis yn yr ysgol a deilliannau llesiant ar gyfer pobl ifanc trawsryweddol. Ar ben hynny, mae nifer o astudiaethau meintiol sy'n seiliedig ar arolygon wedi archwilio'r berthynas rhwng llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr traws ac amrywiol fesurau hinsawdd ysgolion sy'n gysylltiedig â rhywedd, y mae rhai

ohonynt yn gysylltiedig â dulliau ysgolion o ddefnyddio'r enwau a'r rhagenwau o ddewis.

Er enghraifft, ymhlith yr astudiaethau olaf a drafodwyd uchod mae adroddiad perthnasol a gyhoeddwyd gan GLSEN, sy'n seiliedig ar ddata o arolwg ar raddfa fawr gyda sampl gynrychioliadol o fyfyrwyr LHDTTC+ yn ysgolion canol ac uwchradd Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=Amh)¹⁰⁶. Yn ôl yr astudiaeth hon, roedd myfyrwyr LHDTTC+ a ddywedodd fod ganddynt brofiad o bolisiau ac arferion 'gwrthwahaniaethol' yn yr ysgol (gan gynnwys cael eu hatal rhag defnyddio'r enwau neu'r rhagenwau o'u dewis) yn nodi lefelau is o hunan-barch a lefelau uwch o iselder. Canfu GLSEN ar wahân hefyd fod myfyrwyr trawsryweddol neu anneuaidd a ddywedodd fod gan eu hysgol bolisi neu ganllawiau swyddogol yn benodol ynghylch cefnogi myfyrwyr trawsryweddol neu anneuaidd yn llai na hanner mor debygol â'r rhai mewn ysgolion heb bolisi o'r fath i roi gwybod am gael eu hatal rhag defnyddio eu henw neu ragenwau dewisol yn yr ysgol³⁹, yn llai tebygol o roi gwybod am golli ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus, ac adrodd am lefelau uwch o deimlo'n perthyn i'r ysgol¹⁰⁶. Yn wir, nododd y mwyafrif llethol o'r rhai a ddywedodd fod gan eu hysgol bolisi swyddogol yn datgan ei fod yn mynd i'r afael yn benodol â defnyddio enwau a rhagenwau o ddewis, sef y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnwys amlaf mewn polisiau trawsryweddol neu anneuaidd ysgolion.

Astudiaeth arall o hinsawdd ysgolion a drafodwyd uchod oedd astudiaeth dulliau cymysg a oedd yn defnyddio data o gyfweiliadau lled-strwythuredig ac arolwg o fyfyrwyr trawsryweddol ac amrywiol o ran rhywedd rhwng 14 a 25 oed yn Awstralia⁶¹, a ganfu fod myfyrwyr trawsryweddol a ddywedodd fod eu hathrawon yn defnyddio enwau a rhagenwau 'amhriodol gan amlaf' yn nodi mwy o gamdriniaeth gan gyfoedion a chanlyniadau addysgol gwaeth o'i gymharu â'r rhai a oedd yn ystyried bod defnydd eu hathrawon o enwau a rhagenwau yn 'briodol'. Yn yr un modd, canfu astudiaeth a oedd yn seiliedig ar ddata o arolwg o bobl ifanc rhwng 14 a 21 oed yn Awstralia⁷¹ fod cyfranogwyr traws neu amrywiol o ran rhywedd a ddywedodd fod eu sefydliad addysg yn cadarnhau eu hunaniaeth LGBTIQA+ yn nodi lefelau is o drallod seicolegol a lefelau uwch o hapusrwydd goddrychol. I archwilio hyn, datblygodd awduron yr astudiaeth raddfa 'amgylchedd addysgol cadarn' benodol ar gyfer cyfranogwyr traws neu amrywiol o ran rhywedd, a oedd yn cynnwys eitemau yn ymwneud â phrofiadau cyfranogwyr traws neu amrywiol o ran rhywedd o gysur a diogelwch yn yr ysgol, gan gynnwys defnyddio enwau a rhagenwau o'u dewis. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau astudiaeth gan Durwood et al.⁶³ a oedd yn edrych ar y berthynas rhwng cymorth ysgol sy'n seiliedig ar hunaniaeth rhywedd a symptomau gorbryder ac iselder a gofnodwyd gan rieni, gan ddefnyddio data o arolwg o rieni 265 o blant traws 3–11 oed yn Unol Daleithiau America.

Yn yr astudiaethau hinsawdd ysgolion a drafodir uchod, yn gyffredinol nid yw'n bosibl ynysu dulliau o ddefnyddio enwau a rhagenwau dewisol plant a phobl ifanc traws o'r mesur ehangach o ran hinsawdd yr ysgol. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn yn darparu tystiolaeth ragarweiniol sy'n awgrymu y gall dulliau o ddefnyddio enwau a rhagenwau o ddewis fod yn nodwedd bwysig o hinsawdd ysgol sy'n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd, sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau llesiant ac addysgol i blant a phobl ifanc traws.

Mae canfyddiadau ynghylch defnyddio enwau a rhagenwau o ddewis i'w gweld ar draws sawl astudiaeth ansoddol sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. Mewn dadansoddiad eilaidd o ddata cyfweiliadau gan 12 o bobl ifanc traws ac anneuaidd rhwng 15 ac 17 oed yng Nghnada, gwelodd Kelley et al.⁶² fod camddefnyddio neu wrthod defnyddio'r enwau a'r rhagenwau a ffefrir gan gyfoedion yn niweidiol i lawer o bobl ifanc, a wnaeth egluro eu bod yn teimlo'n annilys, gan gael effaith negyddol ar eu llesiant (sgôr MMAT=5/5). Yn yr un modd, mewn adroddiad a oedd yn seiliedig ar arolwg o 38,269 o fyfyrwyr LDHTC+ rhwng 8 ac 16 oed yn Unol Daleithiau America⁴⁴, dywedodd cyfranogwyr trawsrywiol a ymatebodd i gwestiynau agored am yr hyn a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol yn yr ysgol neu nad oedd croeso iddynt oedd pan mae athrawon yn gwrthod defnyddio'r enwau a'r rhagenwau o'u dewis. Dywedodd eraill, pan oedd athrawon yn defnyddio'r enw a'r rhagenwau o'u dewis, ei fod yn gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol. Mewn astudiaeth ansoddol yn y DU sy'n seiliedig ar ddata o grwpiau ffocws gyda phobl ifanc traws rhwng 16 a 19 oed⁷⁵, roedd cyfranogwyr yn credu, er nad oedd methu neu wrthod defnyddio'r enwau neu'r rhagenwau o'u dewis yn fwriadol i achosi gofid o reidrwydd, roedd yn achosi straen, rhwystredigaeth, gofid a dicter. Nodwyd hefyd nad oedd staff yr ysgol yn cydnabod effaith hyn yn aml. Adleisiwyd y canfyddiadau hyn mewn astudiaeth a oedd yn defnyddio data testun agored o arolwg mawr o bobl ifanc LDHTC+ rhwng 13 ac 17 oed yn y DU (sgôr MMAT=4/5)⁶⁵, lle nododd cyfranogwyr deuaidd-traws, anneuaidd, a'r rhai sy'n cwestiynu eu rhywedd, fod athrawon sy'n methu neu'n gwrthod defnyddio'r enwau a'r rhagenwau o'u dewis yn creu teimladau o ofid, pryder, a'u bod yn anniogel yn yr ysgol.

Nododd yr adolygiad un astudiaeth feintiol a oedd yn edrych yn benodol ar rôl defnyddio enwau o ddewis yn yr ysgol o ran deilliannau llesiant plant a phobl ifanc traws. Roedd hon yn astudiaeth hydredol o'r risg a'r ffactorau amddiffynnol o hunanladdiad ymhlith 129 o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar a'r rhai sy'n cwestiynu (LDHTC) yn ogystal â chyfranogwyr ag atyniad at yr un rhyw yn Unol Daleithiau America⁷⁴ (sgôr MMAT=4/5). Cynhaliodd yr awduron dri phrif fath o broses ddadansoddi:

- Gwahaniaethau rhwng pobl ifanc drawsryweddol gydag enw a heb enw o'u dewis;

- Rhagfynegyddion sy'n benodol i gyd-destun o ddefnyddio enw o ddewis ym mhob cyd-destun perthnasol;
- Y cysylltiad rhwng defnyddio enwau o ddewis mewn cyd-destunau penodol a chanlyniadau iechyd meddwl, gan reoli rhagfynegyddion defnyddio enw o ddewis.

Y canlyniadau iechyd meddwl a nodwyd yn yr astudiaeth oedd symptomau iselder, meddwl am hunanladdiad, a hunan-barch. Canfu'r awduron fod defnyddio enw o ddewis yn yr ysgol yn arwain at lai o symptomau iselder a mwy o hunan-barch, ond nad oedd yn cael unrhyw effaith sylweddol ar syniadau hunanladdol cadarnhaol na negyddol.

Effaith polisi gwisg ysgol

Ychydig o dystiolaeth a nodwyd yn yr adolygiad hwn a oedd yn archwilio'n uniongyrchol effaith dulliau polisi ac ymarfer o ran gwisg ysgol ar lesiant a/neu ddeilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws. At ei gilydd, nodwyd tair astudiaeth berthnasol – un feintiol a dwy ansoddol.

Canfu'r un astudiaeth feintiol a nodwyd (sgôr MMAT=Amh)³⁹, arolwg o hinsawdd ysgolion ar raddfa fawr GLSEN gyda sampl gynrychioliadol o fyfyrwyr LHDTTC+ yn ysgolion canol ac uwchradd Unol Daleithiau America, fod myfyrwyr LHDTTC+ a adroddodd eu bod yn profi polisïau ac arferion 'gwahaniaethu' yn yr ysgol (gan gynnwys cael eu hatal rhag gwisgo gwisg ysgol neu ddillad sy'n cyfateb i'w hunaniaeth o ran rhywedd) lefelau is o hunan-barch a lefelau uwch o iselder. Canfu'r adroddiad hefyd ar wahân fod myfyrwyr trawsryweddol neu anneauidd a nododd fod gan eu hysgol bolisi neu ganllawiau swyddogol yn benodol i gefnogi myfyrwyr trawsryweddol neu anneauidd (roedd y mwyafrif ohonynt yn cynnwys darpariaethau sy'n mynd i'r afael â gwisg a dillad) bron i hanner mor debygol o ddweud eu bod yn cael eu hatal rhag gwisgo gwisg neu ddillad sy'n cyfateb i'w hunaniaeth o ran rhywedd. Roedd y myfyrwyr hyn hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn colli ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus ac yn adrodd am lefelau uwch o deimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol.

Mewn astudiaeth (sgôr MMAT=4/5)⁸³ yn seiliedig ar 10 cyfweiliad naratif yn archwilio bywydau a phrofiadau ysgol 10 menyw ddu draws ym Michigan, UDA, disgrifiodd un cyfranogwr eu bod yn cael eu hanfon adref am wisgo sgert i'r ysgol, gyda staff yn cyfiawnhau'r weithred ar y sail ei bod yn anniogel oherwydd yr 'aflonyddwch' y byddai'r myfyriwr yn ei wynebu oherwydd eu mynegiant rhywedd nad yw'n cydymffurfio. Nodwyd bod enghreifftiau fel y rhain yn yr astudiaeth wedi cyfrannu at niweidio iechyd meddwl ac emosiynol myfyrwyr traws.

Roedd astudiaeth arall (sgôr MMAT=5/5)⁸¹ a nodwyd yn yr adolygiad yn defnyddio 13 o gyfweiliadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc traws yn Iwerddon, ac oedd yn archwilio'n uniongyrchol y berthynas rhwng polisïau gwisg ysgol a phrofiadau pobl ifanc traws yn yr ysgol. Roedd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn gorfod gwisgo gwisg ysgol nad oedd yn cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd, gan arwain at deimladau o 'ddysfforia ymgorfforedig', ymdeimlad o gyfyngu ar ryddid mynegiant, ac atgyfnerthu 'eu bod yn wahanol'. I rai, roedd eu gwisgoedd yn gofyn iddynt gydymffurfio â 'normau deuaidd cisryweddol' o ran ymddangosiad, a oedd yn achosi 'trallod emosiynol sylweddol'.

Dulliau polisi ac ymarfer ar gyfer defnyddio cyfleusterau ysgolion

Nodwyd canfyddiadau ar ddulliau polisi ac ymarfer ysgolion o ran defnydd dysgwyr traws o gyfleusterau – sef ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid – mewn sawl astudiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad, y rhan fwyaf ohonynt yn casglu data ansoddol yn benodol gan fyfyrwyr traws ac anneuaidd, neu eu rhieni. Roedd arolwg meintiol ar raddfa fawr hefyd yn edrych ar bolisi ac ymarfer ysgolion ar amrywiaeth o fesurau sy'n gysylltiedig â rhywedd, lle trafodwyd defnyddio cyfleusterau. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw astudiaethau yn yr adolygiad hwn a oedd yn edrych yn benodol ar y berthynas rhwng defnyddio cyfleusterau ysgolion a deilliannau addysgol a/neu lesiant.

Archwiliodd astudiaeth gan Horton a Carlile¹⁶ (sgôr MMAT =5/5), sy'n defnyddio dwy set ddata ansoddol o rieni a phlant a phobl ifanc traws, cyfanswm o 52 o gyfweiliadau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, brofiadau myfyrwyr traws yn yr ysgol, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau ysgol. Roedd yr astudiaeth yn tynnu sylw at brofiadau myfyrwyr traws a oedd yn teimlo bod dulliau eu hysgolion yn diwallu eu hanghenion, gydag un rhiant plentyn traws yn rhannu bod eu plentyn yn cael mynediad at doiled staff i gael preifatrwydd ychwanegol. Fodd bynnag, teimlai'r rhiant hwn y byddai hyn yn arfer ysgol annigonol yn y dyfodol petai mwy o blant yn yr ysgol yn nodi eu bod yn draws.

Roedd yr un astudiaeth hefyd yn cynnwys profiadau nifer o fyfyrwyr a nododd eu bod yn anneuaidd. Roeddent yn disgrifio'r diffyg darpariaeth ystafell ymolchi niwtral o ran rhywedd yn eu hysgol, gan eu gorfodi i ddewis rhwng y cyfleusterau sydd ar gael i ferched a bechgyn. Soniodd myfyrwyr anneuaidd am brofiadau o fynd i mewn i ystafelloedd ymolchi'r merched a'r bechgyn a chael gwybod gan eu cyfoedion ym mhob un na ddylent fod yn defnyddio'r cyfleuster hwnnw. Fel y nodwyd gan Horton a Carlile, arweiniodd hyn at brofiadau ailadroddus o allgau a bwlio gan eu cyfoedion. Nododd astudiaeth wahanol, gan ddefnyddio data cyfweiliadau ar raddfa fach gydag wyth o bobl ifanc draws ac anneuaidd rhwng 13 ac 18 oed (sgôr MMAT=5/5)⁹³, fod

ymatebwyr yn amharod i ddefnyddio cyfleusterau niwtral o ran rhywedd a oedd ar gael yn eu hysgol os nad oeddent yn rhai cyffredinol (ee dim ond un toiled anneuaidd dynodedig), gan eu bod yn poeni y byddai defnyddio'r cyfleuster yn datgelu eu hunaniaeth anneuaidd i'w cyfoedion ac o bosibl eu gwneud yn agored i fwlio.

Mewn astudiaeth ansoddol arall a oedd yn defnyddio cyfweiliadau gyda 30 o rieni a 10 o'u plant a oedd wedi trawsnewid yn gymdeithasol cyn eu bod yn 11 oed yn y DU (sgôr MMAT=5/5)⁷⁰, dywedodd cyfranogwyr eu bod yn osgoi defnyddio'r ystafell ymolchi pan oedd angen iddynt fynd, gan nad oedd eu hysgol yn caniatáu iddynt ddefnyddio'r ystafell ymolchi a oedd yn cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd. Mewn un achos, dywedodd plentyn traws ei fod, oherwydd yr osgoi hwn yn yr ysgol gynradd, wedi datblygu cinc yn ei bledren, yn ôl ei feddyg.

Roedd un adroddiad a gyhoeddwyd gan GLSEN, a oedd yn defnyddio data o arolwg ar raddfa fawr a oedd yn cynrychioli myfyrwyr LHDTC+ yn ysgolion canol ac uwchradd UDA (sgôr MMAT=Amh)³⁹, yn cynnwys canfyddiadau a oedd yn ymwneud â defnyddio ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau newid. Roedd yr adroddiad yn nodi rhai o'r polisïau a'r arferion 'gwrthwahaniaethol' mwyaf cyffredin a oedd yn cael effaith negyddol ar brofiadau'r myfyrwyr yn yr ysgol. O'r rhestr hon, roedd 27.2% o fyfyrwyr wedi cael eu hatal rhag defnyddio'r ystafell ymolchi a oedd yn cyd-fynd â'u rhywedd, ac roedd 23.8% wedi cael eu hatal rhag defnyddio'r ystafell loceri a oedd yn cyd-fynd â'u rhywedd. Soniodd myfyrwyr LHDTC+ a oedd yn profi 'polisïau ac arferion gwahaniaethol' yn yr ysgol am lefelau is o hunan-barch, tebygolrwydd uwch o iselder, ac roeddent fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod wedi ystyried hunanladdiad o ddifrif na myfyrwyr nad oeddent wedi dweud eu bod wedi profi 'gwahaniaethu'. Mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau hyn yn cyfeirio at fyfyrwyr LHDTC+ fel grŵp, yn hytrach na myfyrwyr traws ac anneuaidd yn unig. Hefyd, canfu'r adroddiad fod myfyrwyr LHDTC+ a ddywedodd fod gan eu hysgolion bolisïau neu ganllawiau swyddogol gyda darpariaethau ar gyfer myfyrwyr traws ac anneuaidd yn llai tebygol o adrodd am brofiadau o 'wahaniaethu sy'n gysylltiedig â rhywedd', gan gynnwys cael eu hatal rhag defnyddio ystafell ymolchi neu locer sy'n cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd. Ymhlith myfyrwyr traws ac anneuaidd yn benodol, roedd y rhai a ddywedodd fod gan eu hysgolion bolisïau a chanllawiau swyddogol gyda darpariaethau penodol ar gyfer myfyrwyr traws ac anneuaidd (gan gynnwys darpariaethau ar gyfer cael mynediad at ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd loceri sy'n cyfateb i hunaniaeth o ran rhywedd ac ystafelloedd ymolchi niwtral o ran rhywedd) yn llai tebygol o adrodd eu bod yn colli ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n annigedig ac yn adrodd am lefelau uwch o deimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol.

Canfu un astudiaeth dulliau cymysg, a oedd yn cynnwys 13 o gyfweiliadau a 58 o ymatebion i'r arolwg gan bobl ifanc LHDTC+ 13-18 oed yn Unol Daleithiau America (sgôr MMAT=4/5)⁷⁶, mewn rhai achosion, fod cyfranogwyr wedi mynegi 'dicter a

rhwystredigaeth' at weinyddwyr eu hysgolion am beidio â dilysu neu fynd i'r afael â phryderon ac anghenion myfyrwyr LHDTCT+. Dywedodd myfyrwyr yn yr astudiaeth, pan oedd athro'n diwallu eu hanghenion (gan gynnwys caniatáu mynediad i le preifat i newid ar gyfer addysg gorfforol, cael defnyddio'r ystafell loceri a oedd yn cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd, a chael defnyddio ystafell ymolchi niwtral o ran rhywedd), ei fod yn helpu i gadarnhau eu hunaniaeth o ran rhywedd ac yn lleihau'r tebygolrwydd o brofi aflonyddu a bwlio sy'n gysylltiedig â phobl LHDTCT+. Unwaith eto, mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau hyn yn cyfeirio at bobl ifanc LHDTCT+, yn hytrach na dim ond pobl ifanc traws, gan nad yw'r data wedi'i ddadgyfuno.

Dulliau polisi ac ymarfer o gymryd rhan mewn chwaraeon ysgol a gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol eraill ar sail rhyw

Mae'r canfyddiadau ar ddulliau ysgolion o ran cyfranogiad myfyrwyr traws mewn chwaraeon ysgol a gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol eraill ar sail rhyw yn amlwg ar draws sawl astudiaeth yn yr adolygiad. Ar ben hynny, fel y nodwyd uchod, roedd sawl astudiaeth yn archwilio'r berthynas rhwng llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr traws ac amrywiol fesurau sy'n gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd yng nghyswllt hinsawdd ysgol, rhai ohonynt yn ymwneud yn benodol â dulliau ysgolion o ran cyfranogiad myfyrwyr traws mewn chwaraeon ysgol a gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol eraill ar sail rhywedd.

Mae astudiaethau mewn ysgolion yn dangos bod a) cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol yn gysylltiedig yn benodol â chanlyniadau llesiant cadarnhaol i blant a phobl ifanc traws, a b) bod myfyrwyr traws yn llawer llai tebygol o adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol na'u cyfoedion cisryweddol. Er enghraifft, canfu astudiaeth feintiol yn Unol Daleithiau America sy'n seiliedig ar ddata'r arolwg (sgôr MMAT=5/5, n=46,537)⁷³ fod myfyrwyr trawsryweddol yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn tîm chwaraeon o'i gymharu â'u cyfoedion cisryweddol. Ar ben hynny, canfu'r astudiaeth fod cymryd rhan mewn dau dîm chwaraeon (AOR = 0.27, 95% CI: 0.11-0.66; p < 0.5)²⁰ neu dri neu fwy o dimau chwaraeon (AOR = 0.40, 95% CI: 0.17–0.94; p < .05) yn gysylltiedig â llai o siawns o feddwl am hunanladdiad ymhlith myfyrwyr trawsryweddol, a bod cymryd rhan mewn tri neu fwy o dimau chwaraeon yn gysylltiedig â llai o debygolrwydd o iselder ymhlith myfyrwyr trawsryweddol²¹ (AOR =0.32 95% CI: 0.15–0.69, p < .05)⁷³. Yn yr un modd, canfu astudiaeth a oedd yn defnyddio data o brofiadau 15,813 o fyfyrwyr LHDTCT+ yn Unol

²⁰Roedd yr holl AORs ar gyfer yr astudiaeth hon yn rheoli 'rhyw, gradd, ethnigrwydd, hil, BMI, a chwsg'.⁷³

²¹Roedd yr holl AORs ar gyfer yr astudiaeth hon yn rheoli 'rhyw, gradd, ethnigrwydd, hil, BMI, a chwsg'.⁷³

Daleithiau America⁴¹ sy'n gysylltiedig â'r ysgol (sgôr MMAT=4/5) fod cyfranogwyr trawsryweddol ac anneuaidd yn llai tebygol o adrodd eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol na'u cyfoedion LHDTTC+ cisryweddol, a bod cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol yn rhagfynegi lefelau uwch o hunan-barch, lefelau is o iselder, a lefelau uwch o deimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol ymysg pobl ifanc drawsryweddol a phobl ifanc anneuaidd.

Canfu adroddiad yn Unol Daleithiau America sy'n seiliedig ar arolwg (sgôr MMAT=22,298 o fyfyrwyr) pan oedd polisïau neu ganllawiau'n mynd i'r afael â chyfranogiad mewn chwaraeon ysgol sy'n cyfateb i hunaniaeth o ran rhywedd, roedd myfyrwyr trawsryweddol ac anneuaidd 74% yn llai tebygol o adrodd am brofiadau o gael eu hatal rhag chwarae ar dîm chwaraeon sy'n gyson â'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain³⁹. Er nad oedd yn bosibl ynysu rôl benodol dulliau i fyfyrwyr traws gymryd rhan mewn chwaraeon ysgol, canfu'r astudiaeth hefyd fod myfyrwyr LHDTTC+ sydd wedi profi polisïau ac arferion 'gwahaniaethol' sy'n gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd yn yr ysgol (gan gynnwys cyfyngiadau o ran chwarae ar dimau chwaraeon sy'n cyd-fynd â'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain) wedi nodi lefelau is o hunan-barch a lefelau uwch o iselder. Mae eitem sy'n ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon ysgol sy'n cyd-fynd â rhywedd hunan-ddynodedig hefyd yn rhan o'r mesur a nodir gan rieni o ran cefnogaeth ysgol ar gyfer hunaniaeth rhywedd pobl ifanc mewn astudiaeth gan Durwood et al.⁶³ a drafodwyd uchod, a nododd fod lefelau uwch o gefnogaeth ysgolion a adroddwyd gan rieni ar gyfer hunaniaeth o ran rhywedd pobl ifanc yn rhagweld lefelau is o symptomau pryder ac iselder a nodwyd gan rieni.

Mewn astudiaeth dulliau cymysg yn Unol Daleithiau America (arolygon a grwpiau ffocws) o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a chwiar (LHDTTC+) 13-18 oed, yn archwilio eu profiadau mewn gweithgareddau athletau ysgol, mae Greenspan et al. (sgôr MMAT=4/5, n=71)⁷⁶ yn dangos bod cyfranogwyr yn mynegi teimladau o hunan-barch isel a hunanhyder isel yng nghyd-destun gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Roeddent yn dweud eu bod yn teimlo'n anniogel mewn cyd-destunau chwaraeon yn yr ysgol oherwydd profiadau o wahaniaethu gan eu cyfoedion a diffyg gweithredu gan staff yr ysgol. Roedd cyfranogwyr yr arolwg hefyd yn nodi lleoliadau'r ysgol roedden nhw wedi'u hosgoi oherwydd eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus, gydag Addysg Gorfforol, dosbarth ymarfer corff, ystafelloedd loceri, a chaeau athletau'r ysgol ar frig y sampl. Yn nodedig, roedd 57.1% o fyfyrwyr trawsryweddol neu amrywiol o ran rhywedd yn osgoi ystafelloedd loceri, o'i gymharu â 23.3% o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw a deuaid cisryweddol.

Effaith ymarfer a pholisi ar gyfoedion myfyrwyr traws

Y cwestiwn olaf a ddefnyddiwyd i lywio'r adolygiad o'r dystiolaeth oedd: Beth yw effaith dulliau polisi ac ymarfer o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg ar gyfoedion plant a phobl ifanc traws? I ateb hyn, buom yn chwilio am dystiolaeth yn ymwneud â'r effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol ar gyfoedion.

Daethom o hyd i astudiaeth cyfweiliad ansoddol gyda llunwyr polisi neu ymarferwyr (n=22) a staff ysgolion (n=12), a oedd yn archwilio'r rhwystrau o ran cynnwys toiledau niwtral o ran rhywedd mewn ysgolion yng Ngorllewin Awstralia (sgôr MMAT=5/5)⁷⁷. Un o'r rhwystrau hyn oedd canfyddiadau negyddol myfyrwyr o ddiwylliannau brodorol Awstralia a chredoau Islamaidd o doiledau aml-giwbicl niwtral o ran rhywedd, lle mae'n bosibl na fydd myfyrwyr benywaidd cis yn dymuno rhannu toiledau â myfyrwyr gwrywaidd cis.

Ar ben hynny, roedd nifer o astudiaethau, a drafodwyd eisoes mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad, yn edrych ar y berthynas rhwng ffactorau ysgol a chanlyniadau ar gyfer dysgwyr LHDTC+ fel poblogaeth, heb ddadgyfuno canlyniadau ar gyfer dysgwyr traws yn benodol. Mae rhai o'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai ffactorau ysgol, sy'n ymwneud yn rhannol â dulliau ysgolion o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol, fod yn gysylltiedig â chanlyniadau i gyfoedion dysgwyr traws sy'n lesbaid, yn hoyw neu'n ddeuaidd, ochr yn ochr â dysgwyr traws eu hunain. Ar ben hynny, archwiliodd un astudiaeth (sgôr MMAT=4/5)³³ ganlyniadau ar wahân ar gyfer myfyrwyr traws a'u cyfoedion cisryweddol, gan ganfod bod pobl ifanc trawsryweddol wedi nodi graddau uwch mewn ysgolion sydd â mwy o bolisiau sy'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol a rhywedd (SOGI), a bod nifer y polisiau sy'n canolbwyntio ar SOGI yn gysylltiedig â lefelau is o driwantiaeth ymysg yr holl fyfyrwyr, ni waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Casgliadau

Nod yr adolygiad hwn oedd cyfod y dystiolaeth sydd ar gael ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws mewn lleoliadau addysg, yn ogystal ag effaith polisiâu ac arferion ar drawsnewid cymdeithasol. Defnyddiwyd methodoleg adolygu dystiolaeth gyflym, a nodwyd 99 o bapurau o amrywiaeth o wledydd, gyda'r mwyafrif yn cynrychioli lleoliadau addysgol yn UDA.

Mae'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws yn dangos yn gyffredinol bod deilliannau addysgol a llesiant myfyrwyr traws yn waeth na'u cyfoedion. Roedd myfyrwyr traws yn fwy tebygol na'u cyfoedion cisryweddol o brofi erledigaeth gan gyfoedion, teimlo'n anniogel yn yr ysgol, adrodd am ganlyniadau iechyd meddwl negyddol (fel meddwl am hunanladdiad, ceisio lladd eu hunain, symptomau iselder, a hunan-niweidio), a defnyddio alcohol a sylweddau eraill. O'i gymharu â'u cyfoedion, roedd myfyrwyr traws yn llai tebygol o gael perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gydag aelodau staff ac yn nodi lefelau is o gysylltiad a theimlo eu bod yn perthyn i'r ysgol. Roedd perfformiad academaidd, ymgysylltiad a phresenoldeb myfyrwyr traws yn waeth. Roeddent hefyd yn llai tebygol o nodi bod ganddynt fwriadau i fynd ar drywydd addysg ôl-uwchradd o'u cymharu â'u cyfoedion cisryweddol.

Roedd y llenyddiaeth hefyd yn tynnu sylw at nifer o anghenion heb eu diwallu a nodwyd gan fyfyrwyr traws. Roeddent yn adrodd diffyg ymrwymiad gan staff i fynd i'r afael â sylwadau trawssffobig a wneir gan fyfyrwyr, anallu i roi gwybod am fwlio heb ofni datgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd neu wynebu mwy o aflonyddu, hinsawdd ysgol nad oeddent yn derbyn amrywiaeth o ran rhywedd a mynegi hunaniaethau rhywedd gwahanol (gan gynnwys toiledau ac ystafelloedd newid anniogel neu anghyfforddus), a diffyg cwricwlwm ysgol gyfan a oedd yn gynhwysol ac yn cynrychioli hunaniaethau traws. Mynegodd myfyrwyr traws yr angen am well dealltwriaeth o amrywiaeth o ran rhywedd a hunaniaethau traws ymhlith staff ysgolion, ac am lai o wahanu rhwng y rhywiau yn ystod gweithgareddau'r ysgol (er enghraifft yn ystod addysg gorfforol, gwasanaethau, a gweithgareddau eraill yr ysgol).

Prin oedd y dystiolaeth a oedd yn archwilio effaith dulliau polisi ac ymarfer penodol o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol mewn lleoliadau addysg ar lesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad sylfaen dystiolaeth ehangach yn archwilio'r berthynas rhwng llesiant a deilliannau addysgol plant a phobl ifanc traws ac amrywiol ffactorau ysgol – fel hinsawdd gyffredinol yr ysgol, polisiâu'r ysgol ar gefnogi myfyrwyr traws, a lefelau cymorth athrawon – y gwelwyd weithiau eu bod yn ymwneud, i wahanol raddau, â dulliau ysgolion o

drawsnewid cymdeithasol. Fel arfer, nid oedd yn bosibl ynysu dylanwad polisiâu ysgol unigol na dulliau ymarfer trawsnewid cymdeithasol o'r ffactorau ysgol ehangach sy'n cael eu harchwilio mewn astudiaeth benodol. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, mae'r llenyddiaeth hon yn rhoi rhywfaint o arwydd rhagarweiniol y gallai dulliau polisi ac ymarfer cadarnhaol chwarae rhan mewn nifer o ffactorau ysgol ehangach sy'n gysylltiedig â deilliannau addysgol a llesiant gwell ymysg plant a phobl ifanc traws. Canfu astudiaethau ar ffactorau ysgol a deilliannau addysgol a llesiant myfyrwyr traws:

- Bod myfyrwyr trawsryweddol a ddywedodd fod eu hathrawon yn defnyddio enwau a rhagenwau 'yn amhriodol gan amlaf' i gyfeirio atynt yn nodi lefelau uwch o aflonyddu gan gyfoedion a chanlyniadau addysgol gwaeth o'i gymharu â'r rheini a oedd yn ystyried bod defnydd eu hathrawon o enwau a rhagenwau yn 'briodol';
- Nododd myfyrwyr trawsrywiol neu anneuaidd a ddywedodd fod gan eu hysgol bolisi penodol ar gefnogi myfyrwyr trawsryweddol ac anneuaidd²² fwy o ymdeimlad eu bod yn perthyn i'r ysgol a'u bod yn llai tebygol o golli ysgol oherwydd eu bod yn teimlo'n annigol neu'n anghyfforddus;
- Roedd gan fyfyrwyr LHDTTC+ a nododd eu bod wedi profi polisiâu ac arferion 'gwahaniaethol' sy'n gysylltiedig â rhywedd yn yr ysgol (gan gynnwys cyfyngiadau ar ddefnyddio enw a rhagenwau o'u dewis, mynediad at gyfleusterau, a mynegiant rhywedd) lefelau is o hunan-barch a lefelau uwch o iselder;
- Roedd pobl ifanc traws neu amrywiol o ran rhywedd a ddywedodd fod eu sefydliad addysg yn cadarnhau eu hunaniaeth LGBTQIA+²³ yn nodi lefelau is o drallod seicolegol a lefelau uwch o hapusrwydd goddrychol;
- Ar gyfer pobl ifanc draws, roedd lefelau uwch o gymorth ysgol a gofnodwyd gan rieni gyda'u hunaniaeth o ran rhywedd²⁴ yn gysylltiedig â lefelau is o symptomau gorbryder ac iselder;

²² Yn fwyaf cyffredin, mynd i'r afael â chyfleoedd i fyfyrwyr trawsryweddol neu anneuaidd ddefnyddio enw a rhagenwau o'u dewis yn yr ysgol, cael mynediad at ystafelloedd ymolchi sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain, newid cofnodion swyddogol i adlewyrchu newid enw neu rywedd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfateb i'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain.

²³ Er mwyn mesur hyn, datblygodd yr astudiaeth raddfa 'amgylchedd addysgol cadarnhaol' aml-eitem a oedd yn mynd i'r afael â lefelau canfyddedig o ddiogelwch a chysur myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd dros y 12 mis diwethaf yn yr ysgol drwy ddefnyddio enw a rhagenwau o'u dewis, gwisgo dillad sy'n cyd-fynd â'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain, defnyddio ystafelloedd ymolchi sy'n cyd-fynd â'r rhywedd maent wedi'i ddynodi i'w hunain, cael dweud yn agored eu bod yn LHDTTC+, a dathlu diwrnodau arwyddocaol LGBTQIA+ (fel Diwrnod Gweledded Trawsryweddol).

²⁴ Er mwyn mesur hyn, datblygodd yr astudiaeth raddfa 'cymorth ysgol sy'n gysylltiedig â rhywedd' aml-eitem a oedd yn gofyn i rieni adrodd pa mor dda mae athrawon wedi derbyn hunaniaeth o ran rhywedd/cyflwyniad rhywedd eu plentyn, pa mor fodlon ydynt yn gyffredinol gyda sut mae'r plentyn yn cael ei drin yn yr ysgol o ran eu hunaniaeth/mynegiant rhywedd, ynghyd â rhestr wirio 11 eitem yn nodi a oedd yr ysgol yn darparu amrywiol gymorth sy'n gysylltiedig â hunaniaeth eu plentyn o ran rhywedd, (h.y. polisi gwrth-fwlio sy'n cyfeirio'n benodol at

- Roedd gan fyfyrwyr amrywiol o ran rhywedd a nododd lefelau uwch o deimlo'n gadarnhaol am eu hathrawon o safbwynt eu hamrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb²⁵ lefelau uwch o ran morâl yr ysgol, perthyn i'r ysgol, hyder wrth ddysgu, cymhelliant a hunan-gysyniad academaidd, a lefelau is o drallod yn yr ysgol ac aflonyddu gan gyfoedion;
- Ar gyfer pobl ifanc trawsryweddol, roedd defnyddio enw o'u dewis yn yr ysgol yn arwain at lai o symptomau iselder a mwy o hunan-barch.

Yn ogystal ag astudiaethau ar ffactorau ysgol sy'n ymwneud yn benodol â dulliau ysgolion o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol, canfu'r llenyddiaeth ehangach ar ffactorau ysgolion yn gyson fod hinsawdd ysgol 'gefnogol' a staff ysgol cefnogol yn debygol o chwarae rhan bwysig o ran amddiffyn myfyrwyr traws rhag llai llesiant gwaeth a chanlyniadau addysgol is. Fodd bynnag, er bod yr astudiaethau a drafodwyd uchod wedi cael eu hasesu fel rhai o ansawdd uchel yn gyffredinol (sgorau MMAT o 4-5/5), mae'n bwysig nodi eu bod yn dibynnu'n helaeth ar ddyluniadau trawstoriadol. Mae hyn yn golygu, er eu bod wedi canfod cysylltiadau ystadegol rhwng ffactorau ysgol a chanlyniadau myfyrwyr traws, nid yw'n bosibl sefydlu perthnasoedd achosol. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am ragor o ymchwil:

- i archwilio pa bolisïau ac arferion penodol sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau myfyrwyr traws bod hinsawdd gyffredinol yr ysgol a staff yr ysgol yn 'gefnogol';
- i archwilio i ba raddau y mae'r polisïau a'r arferion hyn yn ymwneud â thrawsnewid cymdeithasol;
- i nodi dulliau achosol sy'n cysylltu'r ffactorau hyn â llesiant a deilliannau addysgol myfyrwyr traws.

Mae hefyd yn codi'r angen cyffredinol i ystyried sut i sicrhau bod dulliau ysgolion o ymdrin â thrawsnewid cymdeithasol yn cyd-fynd â chanfyddiadau myfyrwyr traws eu bod mewn amgylchedd cefnogol, eu bod yn cael eu cefnogi gan staff yr ysgol, a'u bod yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu gan gyfoedion, ac ystyried y rôl hanfodol y nodir bod hyn yn ei chwarae o ran lliniaru'r gwahaniaethau mewn llesiant a deilliannau addysgol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc traws.

hunaniaeth/mynegiant rhywedd, dogfennau ysgol sy'n cyd-fynd â hunaniaeth y plentyn o ran rhywedd, defnyddio cyfleusterau toiled o'u dewis, cymryd rhan mewn chwaraeon sy'n cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd ac ati).

²⁵ I archwilio hyn, datblygodd yr astudiaeth is-raddfa yn cynnwys tair eitem, a oedd yn mesur i ba raddau roedd y myfyrwyr yn cytuno gyda graddfa Likert 9 pwynt a'r datganiadau 'Mae fy athrawon yn dweud ei bod yn iawn i bobl fynegi eu rhywedd mewn ffordd gwahanol', 'Yn fy ysgol i, petai rhywun yn gwneud hwyl am fy mhen am y ffordd rwy'n mynegi fy rhywedd, byddai'r athrawon yn fy amddiffyn i, ac 'Yn fy ysgol i, mae athrawon yn siarad am atyniad at yr un rhyw (pynciau lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol) mewn ffordd gadarnhaol'.

Roedd yr adolygiad o'r llenyddiaeth hefyd yn nodi bylchau yn y dystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi, fel astudiaethau sy'n edrych ar brofiadau plant traws anabl neu blant traws sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gwerthuso effaith polisiau ac arferion trawsnewid cymdeithasol ar lesiant a deilliannau addysgol gan ddefnyddio dyluniadau astudiaeth arbrofol, a safoni diffiniadau o lesiant a deilliannau addysgol ar gyfer y boblogaeth a'r lleoliadau addysgol hyn. Ar ben hynny, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd ynghylch effaith gwahanol ddulliau polisi ac ymarfer o drawsnewid cymdeithasol ar gyfoedion plant a phobl ifanc traws.

Dylid dehongli canfyddiadau'r adolygiad hwn gan gadw ei gyfyngiadau mewn cof. Dyluniwyd yr adolygiad hwn fel adolygiad cyflym o dystiolaeth gyda chwmpas cyfyngedig yn ymdrin â'r 10 mlynedd diwethaf, mewn gwledydd tebyg i'r DU. Defnyddiwyd strategaethau chwilio wedi'u targedu, a dim ond ar ganran o erthyglau y cynhaliwyd prosesau sgrinio, croeswrio ac echdynnu data. Cynhaliwyd asesiad ansawdd ar bob erthygl a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gyfoedion, ond ni chafodd ei ddefnyddio fel meini prawf cymhwysedd. Cryfderau'r adolygiad yw'r broses gydweithredol a ddefnyddir i'w ddylunio a'i weithredu (gan gynnwys mewnbwn gan bedwar adolygydd arbenigol ar gyfoedion), defnyddio adnodd asesu ansawdd wedi'i ddilysu a'i ddefnyddio'n eang (MMAT), a defnyddio dulliau adolygu dystiolaeth gyflym wedi ennill eu plwyf ar gyfer chwilio, sgrinio ac echdynnu data.

Geirdaon

1. Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru [Rhynggrwyd]. 2023 [dyfynnwyd Gorffennaf 9 2024]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/cynllun-gweithredul-lhdtc-cymru.pdf>
2. Tricco AC, Langlois EtienneV, Straus SE, Alliance for Health Policy and Systems Research, World Health Organization. Rapid reviews to strengthen health policy and systems: a practical guide. Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd; 2017 .
3. Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru: rhestr termau [HTML] | LLYW.CYMRU [Internet]. [dyfynnwyd Mai 27 2024]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru-rhestr-termau.html>
4. White J, Moore L, Cannings-John R, Hawkins J, Bonell C, Hickman M, et al. Association Between Gender Minority Status and Mental Health in High School Students. *Journal of Adolescent Health*. 2023 May;72(5):811–4. DOI:10.1016/j.jadohealth.2022.12.028
5. Chan RCH. Gender nonconformity, peer victimization, and internalizing problems among youth: Differential moderating effects of school climate by sex assigned at birth. *Psychology of Violence*. 2022 Medi;12(5):347–60. DOI:10.1037/vio0000441
6. A Brief Guide to Terminology [Rhynggrwyd]. a:gender. [dyfynnwyd 2024 Mai 27]. Ar gael o: <https://www.agender.org.uk/resources/terminology>
7. Turban JL, King D, Li JJ, Keuroghlian AS. Timing of Social Transition for Transgender and Gender Diverse Youth, K-12 Harassment, and Adult Mental Health Outcomes. *Journal of Adolescent Health*. 2021 Rhagfyr;69(6):991–8. DOI:10.1016/j.jadohealth.2021.06.001
8. Nicholas Page, Gillian Hewitt, Honor Young, Graham Moore, Simon Murphy. Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion 2019/20. Caerdydd, y DU: Prifysgol Caerdydd; 2021.
9. Nicholas Page, Lianna Angel, Ogada E, Honor Young, Simon Murphy. Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Ymddygiad Iechyd ymysg Plant oed Ysgol 2021/22 ac Arolwg Iechyd a Llesiant yn yr Ysgol Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd. Caerdydd, y DU: Prifysgol Caerdydd; 2023.
10. McKechnie DGJ, O’Nions E, Bailey J, Hobbs L, Gillespie F, Petersen I. Transgender identity in young people and adults recorded in UK primary care electronic patient records: retrospective, dynamic, cohort study. *bmjmed*. 2023 Tachwedd;2(1):e000499. DOI:10.1136/bmjmed-2023-000499

11. Payne E, Smith M. The Big Freak Out: Educator Fear in Response to the Presence of Transgender Elementary School Students. *Journal of Homosexuality*. 2014 Mawrth 4;61(3):399–418. DOI:10.1080/00918369.2013.842430
12. Frohard-Dourlent H. “The student drives the car, right?”: trans students and narratives of decision-making in schools. *Sex Education*. 2018 Gorffennaf 4;18(4):328–44. DOI:10.1080/14681811.2017.1393745
13. Marx R, Roberts L, Nixon C. When Care and Concern Are Not Enough: School Personnel’s Development as Allies for Trans and Gender Non-Conforming Students. *Social Sciences*. 2017 Ionawr 25;6(1):11. DOI:10.3390/socsci6010011
14. Case KA, Amand CS. Developing Allies to Transgender and Gender-Nonconforming Youth: Training for Counselors and Educators. *Journal of LGBT Youth*. 2014 Ionawr 1;11(1):62–82. DOI:10.1080/19361653.2014.840764
15. Sinclair-Palm J, Gilbert J. Naming new realities: supporting trans youth in education. *Sex Education*. 2018 Gorffennaf 4;18(4):321–7. DOI:10.1080/14681811.2018.1452347
16. Horton C, Carlile A. “We Just Think of Her as One of the Girls”: Applying a Trans Inclusion Staged Model to the Experiences of Trans Children and Youth in UK Primary and Secondary Schools. *Teachers College Record: The Voice of Scholarship in Education*. 2022 Awst;124(8):168–91. DOI:10.1177/01614681221123383
17. Society for Adolescent Health and Medicine. Promoting Health Equality and Nondiscrimination for Transgender and Gender-Diverse Youth. *J Adolesc Health*. 2020 Mehefin;66(6):761–5.
18. Coleman E, Radix AE, Bouman WP, Brown GR, De Vries ALC, Deutsch MB, et al. Standards of Care for the Health of Transgender and Gender Diverse People, Version 8. *International Journal of Transgender Health*. 2022 Awst 19;23(sup1):S1–259. DOI:10.1080/26895269.2022.2100644
19. Rafferty J, COMMITTEE ON PSYCHOSOCIAL ASPECTS OF CHILD AND FAMILY HEALTH, COMMITTEE ON ADOLESCENCE, SECTION ON LESBIAN G BISEXUAL, AND TRANSGENDER HEALTH AND WELLNESS, Yogman M, Baum R, et al. Ensuring Comprehensive Care and Support for Transgender and Gender-Diverse Children and Adolescents. *Pediatrics*. 2018 Hydref 1;142(4):e20182162. DOI:10.1542/peds.2018-2162
20. Telfer MM, Tollit MA, Pace CC, Pang KC. Australian standards of care and treatment guidelines for transgender and gender diverse children and adolescents. *Medical Journal of Australia*. 2018 Awst;209(3):132–6. DOI:10.5694/mja17.01044
21. Zucker KJ. Debate: Different strokes for different folks. *Child Adoles Ment Health*. 2020 Feb;25(1):36–7. DOI:10.1111/camh.12330

22. de Vries ALC, Cohen-Kettenis PT. Clinical management of gender dysphoria in children and adolescents: the Dutch approach. *J Homosex.* 2012;59(3):301–20. DOI: 10.1080/00918369.2012.653300
23. D'Angelo R, Syrulnik E, Ayad S, Marchiano L, Kenny DT, Clarke P. One Size Does Not Fit All: In Support of Psychotherapy for Gender Dysphoria. *Arch Sex Behav.* 2021 Jan;50(1):7–16. DOI:10.1007/s10508-020-01844-2
24. Schumm WR, Crawford DW. Is Research on Transgender Children What It Seems? Comments on Recent Research on Transgender Children with High Levels of Parental Support. *Linacre Q.* 2020 Dec;87(1):9–24. DOI:10.1177/0024363919884799
25. Temple Newhook J, Pyne J, Winters K, Feder S, Holmes C, Tosh J, et al. A critical commentary on follow-up studies and “desistance” theories about transgender and gender-nonconforming children. *International Journal of Transgenderism.* 2018 Apr;3(2):212–24. DOI:10.1080/15532739.2018.1456390
26. Ashley F. Interrogating Gender-Exploratory Therapy. *Perspect Psychol Sci.* 2023 Mar;18(2):472–81. DOI:10.1177/17456916221102325
27. Lawson Z, Davies S, Harmon S, Williams M, Billawa S, Holmes R, et al. A human rights based approach to transgender and gender expansive health. *bpscpf.* 2023 Oct;1(369):91–106. DOI:10.53841/bpscpf.2023.1.369.91
28. D'Angelo R. Supporting autonomy in young people with gender dysphoria: psychotherapy is not conversion therapy. *J Med Ethics.* 2023 Jun;38(6):1092–100. DOI:10.1136/jme-2023-109282
29. Cass H. Independent review of gender identity services for children and young people: Final report, Cass Review.. 2024. Available from: https://cass.independent-review.uk/wp-content/uploads/2024/04/CassReview_Final.pdf
30. Hall R, Taylor J, Hewitt CE, Heathcote C, Jarvis SW, Langton T, et al. Impact of social transition in relation to gender for children and adolescents: a systematic review. *Arch Dis Child.* 2024 Apr;109(4):400–408. DOI:10.1136/archdischild-2023-326112
31. Hong QN, Fàbregues S, Bartlett G, Boardman F, Cargo M, Dagenais P, et al. The Mixed Methods Appraisal Tool (MMAT) version 2018 for information professionals and researchers. *Education for Information.* 2018 Jun;34(1):1–7. DOI: 10.3233/EFI-180221
32. Prince M. Chapter 9 - Epidemiology. In: *Core Psychiatry (Trydydd Argraffiad)*. Wright P, Stern J, Phelan M, editors. Oxford: W.B. Saunders; 2012. p. 115–29. ISBN:978-0-7020-3397-1
33. Day JK, Ioverno S, Russell ST. Safe and supportive schools for LGBT youth: Addressing educational inequities through inclusive policies and practices. *Journal of School Psychology.* 2019 Apr;74:29–43. DOI:10.1016/j.jsp.2019.05.007

